Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
45/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
28/06/2022

# Ymchwil Ansoddol gydag Ymarferwyr ar Baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: adroddiad terfynol

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80364-285-7

**Ymchwil Ansoddol gydag Ymarferwyr ar Baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: adroddiad terfynol**

Awduron: Hefin Thomas, Brett Duggan, Morgan Davies-Walker, Ymchwil Arad. Claire Sinnema, Athro Cyswllt, y Gyfadran Addysg a Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Auckland.
Dr Nia Cole-Jones, Dr Alison Glover, Y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Duggan, B; Thomas, H; Davies-Walker, M; Sinnema, C; Cole-Jones, N; Glover, A (2022). *Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: adroddiad terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 45/2022 Ar gael yn: https://llyw.cymru/ymchwil-ansoddol-ag-ymarferwyr-ar-baratoadau-ar-gyfer-diwygiadau-cwricwlwm-ac-asesu-2022

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Cangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000256812
E-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o'r tablau ..... 2
Geirfa ..... 3
Diolchiadau ..... 3
Crynodeb gweithredol ..... 4
1. Cyflwyniad ..... 9
2. Methodoleg ..... 13
3. Proffil yr ymatebwyr ..... 16
4. Ymgysylltu a dealltwriaeth ..... 18
5. Dylunio, cynllunio a threialu ..... 37
6. Gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf ..... 51
7. Y costau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cwricwlwm ..... 58
8. Casgliadau a materion i'w hystyried ..... 61
Atodiad A: Canllaw trafodaeth ar gyfer y cyfweliadau ..... 67

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 1. Proffil o'r sampl a gyfwelwyd fesul sector a chyfrwng .............................................16
Tabl 2. Proffil o sampl y rhai a gyfwelwyd yn ôl rhanbarth ..................................................17
Tabl 3. Proffil o'r sampl a gyfwelwyd yn ôl i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad *'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ei chwricwlwm ei hunain yn barod i'w gyflwyno ym mis Medi 2022'*.........................................................................17

**Geirfa**

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| AGA | Addysg gychwynnol i athrawon |
| CAD | Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu |
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| CPA | Cynllunio, paratoi ac asesu (amser) |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| DPP | Datblygiad proffesiynol parhaus |
| HMS | Diwrnod Addysg a Hyfforddiant Mewn Swydd |
| Meysydd/MDPh | Meysydd dysgu a phrofiad |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| UDA | Uwch dîm arwain |
| Ysgol pob oed | Ysgol 3 - 16 / 19 oed |
| Ysgol(ion) | Drwy gydol yr adroddiad defnyddir 'ysgol(ion)' i gyfeirio at ysgolion a lleoliadau eraill. Roedd y sampl o ysgolion a gynhwyswyd yn yr ymchwil hwn yn cynnwys ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed 3-19, ysgol arbennig ac uned cyfeirio disgyblion. |

**Diolchiadau**

Mae'r tîm ymchwil yn hynod ddiolchgar i'r holl uwch arweinwyr ac ymarferwyr a roddodd o'u hamser gwerthfawr i gyfrannu at yr astudiaeth, yn enwedig o ystyried yr aflonyddwch a'r heriau yn ystod tymor yr hydref 2021.

## Crynodeb gweithredol

1. Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil ansoddol gyda 48 o uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gynhaliwyd gan Ymchwil Arad ar ran Llywodraeth Cymru ddiwedd hydref 2021, a hynny'n edrych ar baratoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n dilyn adroddiad yr arolwg *Paratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022 ac mae'n rhoi rhagor o fanylion a dyfnder er mwyn llywio polisi a chymorth i ysgolion.

### Y fethodoleg a'r gwaith dadansoddi

2. Dewiswyd y rhai i'w cyfweld o blith y rhai a ymatebodd i'r arolwg *Paratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022* (a gynhaliwyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021) ac a nododd eu bod yn fodlon inni ailgysylltu â nhw. Nod y cyfweliadau hyn oedd cael dealltwriaeth fanylach o brofiadau ysgolion unigol ac, yn benodol, dysgu pa elfennau o wireddu’r cwricwlwm a oedd yn gweithio’n dda a pha elfennau nad oeddent yn gweithio cystal.

3. Mae’r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad o 48 o gyfweliadau: 35 gydag uwch arweinwyr ac 13 gydag ymarferwyr. Recriwtiwyd sampl fwriadus o bobl i'w cyfweld i sicrhau bod amrywiaeth o ysgolion a lleoliadau yn cael eu cynnwys:

   - mathau o leoliad (ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed, arbennig, unedau cyfeirio disgyblion);[1]
   - cyfrwng iaith (cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, dwyieithog, dwy ffrwd);
   - ymatebwyr i’r arolwg a oedd yn teimlo bod eu hysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio eu cwricwlwm eu hunain erbyn mis Medi 2022 yn ogystal â’r rhai nad oeddent yn teimlo eu bod yn y sefyllfa honno.

   Mae disgrifiad o’r proffil sampl wedi’i gynnwys yn Adran 3.

[1] Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, defnyddir *ysgol(ion)* i gyfeirio at ysgolion a lleoliadau eraill.

## Y prif ganfyddiadau

*Cynnydd cyffredinol*

4. Dywedodd mwyafrif helaeth yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod wedi gwneud cynnydd o ran eu paratoadau ar gyfer y cwricwlwm rhwng haf 2021, pan gynhaliwyd yr arolwg, a diwedd hydref 2021. Roedd ysgolion wedi dechrau cynllunio a threialu dulliau newydd yn fwy manwl, ac roedd tystiolaeth o fwy o gydweithio a gweithgarwch rhwydweithio rhwng ysgolion. Dywedodd llawer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod wedi gosod cerrig milltir yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol er mwyn bod yn barod i ddechrau cyflwyno'r newidiadau o fis Medi 2022 ymlaen. Roedd y canfyddiadau felly'n dangos momentwm cynyddol yng ngweithgarwch ysgolion, o gymharu â'r sefyllfa a adroddwyd gan ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn ysgol flaenorol. Teimlai nifer bach iawn o’r rhai a gyfwelwyd mai ychydig iawn o gymorth, os o gwbl, a gafodd eu hysgol i gynorthwyo gyda’r paratoadau ar gyfer diwygio’r cwricwlwm ac, o ganlyniad, ychydig iawn o gynnydd a wnaed o ran y gwaith cynllunio.

*Canfyddiadau'n ymwneud ag agweddau penodol ar baratoi'r cwricwlwm*

5. **Mae ysgolion yn cymryd camau i ddatblygu eu hymwneud â'r broses o ddiwygio’r cwricwlwm a'u dealltwriaeth ohoni.** Disgrifiodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac ymarferwyr amrywiaeth o gamau yr oedd eu hysgolion wedi’u cymryd i wella dealltwriaeth ymarferwyr o'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu eu canllawiau mewnol eu hunain a threfnu gweithgaredd dysgu proffesiynol.

6. **Mae ysgolion yn parhau i wneud cynnydd gyda chynllunio'r cwricwlwm**. Mewn llawer o ysgolion, roedd uwch arweinwyr wedi neilltuo neu recriwtio aelodau o staff i fod yn arweinwyr Maes; roedd yr unigolion hyn yn gyfrifol am arwain ymdrech ar y cyd, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr i ddatblygu cynlluniau cwricwlwm ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Nododd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr y cyfwelwyd â nhw fod cyfyngiadau amser a’r aflonyddwch a achoswyd yn sgil y pandemig, fodd bynnag, wedi effeithio ar eu paratoadau ar gyfer y cwricwlwm.

7. **Adroddodd y rhan fwyaf o ysgolion gynnydd o ran y cydweithio a’r gweithgarwch rhwydweithio rhwng ysgolion**, y mae llawer ohono’n cael ei arwain

gan Lywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol (e.e. drwy'r [Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm]) a rhwydweithiau rhanbarthol.

8. **Pwysleisiodd rhai uwch arweinwyr yr angen am ddull graddol ac ailadroddol o ymdrin â phob agwedd ar y broses ddiwygio,** gan addasu a gwella'r cwricwlwm yn hytrach na dechrau o'r newydd a gwneud newid mawr.
9. **Dywedodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod yn awyddus i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyfrannu mewn ffyrdd ystyrlon at ddylunio'r cwricwlwm**. Roedd llawer wedi cynnwys dysgwyr yn y broses o ddatblygu gweledigaeth eu hysgol ar gyfer y cwricwlwm a dehongli'r pedwar diben.
10. **Nododd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr eu bod wedi dechrau cael trafodaethau mwy anffurfiol am gynllunio'r cwricwlwm ac addysgeg.** Fodd bynnag, adroddwyd bod yr ymgysylltiad â'r diwygiadau yn anghyson mewn rhai ysgolion: yn yr ysgolion hyn roedd yr ymarferwyr yn ystyried bod trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch diwygio'r cwricwlwm yn cael eu cynnal ymhlith uwch arweinwyr ac nad oedd ymarferwyr yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses. Roedd ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd yn llai tebygol na'r rhai mewn ysgolion cynradd o adrodd eu bod yn teimlo'n ymwybodol o weithgarwch diwygio'r cwricwlwm yn eu hysgol.
11. **Roedd llawer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn parhau i ddweud bod diffyg eglurder ynghylch agweddau allweddol ar y broses ddiwygio.** Yn nodedig, adroddwyd bod lefel is o ddealltwriaeth a diffyg cymorth ymarferol i ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu dulliau asesu a chynnydd. Mynegodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd bryder am y cysylltiad rhwng dulliau asesu ac atebolrwydd a threfniadau arolygu ysgolion yn y dyfodol. Amlygodd y rhai a gyfwelwyd hefyd bwysigrwydd sicrhau dealltwriaeth gyson o drefniadau asesu er mwyn cefnogi cynnydd dysgwyr rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Dywedodd llawer eu bod yn aros am arweiniad pellach ar asesu er mwyn cael eglurder ynghylch y materion hyn.
12. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion uwchradd yn teimlo bod y **diffyg eglurder ynghylch ffurf cymwysterau yn y dyfodol i ddisgyblion 16 oed** yn rhwystr i ddeall y newidiadau i'r cwricwlwm ac ymgysylltu â nhw.
13. **Roedd ansawdd a swm y wybodaeth a'r canllawiau a roddwyd i ysgolion yn thema amlwg a godwyd gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr fel ei gilydd yn**

**ystod y cyfweliadau.** Teimlai rhai fod y canllawiau cenedlaethol yn rhoi digon o wybodaeth am y diwygiadau. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo nad oedd y canllawiau a gawsant yn cynnwys y manylion angenrheidiol i'w helpu i ddylunio a chynllunio eu cwricwlwm, gan nodi yr hoffent weld enghreifftiau o'r hyn yr oedd proses ddylunio neu gynllunio effeithiol yn ei olygu.

14. Dywedodd llawer o'r uwch arweinwyr ac ymarferwyr hefyd fod y diffyg sicrwydd ynghylch y camau yr oeddent yn eu cymryd i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn effeithio ar eu hyder ac yn llesteirio cynnydd.

15. **Mynegodd rhai uwch arweinwyr bryder bod y gweithlu addysg, yn eu hysgolion eu hunain ac yn gyffredinol, yn brin o brofiad a sgiliau i ddylunio cwricwlwm newydd.** Nododd uwch arweinwyr hefyd bryderon ynghylch diffyg hyder ymhlith y staff. Roedd hyn yn fwy amlwg yn y cyfweliadau a gynhaliwyd yn hydref 2021 nag yn nata'r arolwg a gasglwyd yn ystod haf 2021, ac roedd yn fwy cyffredin ymhlith uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd.

16. **Cymysg oedd y farn ynghylch y cyfleoedd dysgu proffesiynol yr oedd uwch arweinwyr ac ymarferwyr wedi manteisio arnynt i gefnogi diwygio'r cwricwlwm.** Teimlai rhai fod y gefnogaeth a ddarparwyd yn werthfawr ac wedi helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd eraill nad oedd gweithgaredd dysgu proffesiynol wedi canolbwyntio'n ddigonol ar enghreifftiau ymarferol i gefnogi eu paratoadau ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr nad oeddent wedi cael cymaint o gyfleoedd dysgu proffesiynol ag yr oeddent wedi'i ddymuno, a mynegwyd yr angen am ragor o gyfleoedd dysgu proffesiynol.

17. **Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn cydnabod bod adolygu, myfyrio a gwerthuso parhaus yn debygol o fod yn elfennau hollbwysig o'r broses ddiwygio dros y blynyddoedd i ddod**. Dywedodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr a rhai ymarferwyr eu bod yn ansicr ynghylch sut i werthuso i ba raddau y mae cyflwyno'r cwricwlwm yn cefnogi deilliannau dysgwyr.

18. **Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r uwch arweinwyr a gyfwelwyd at y costau ychwanegol i ysgolion yn sgil paratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.** Roedd y costau a adroddwyd amlaf gan ysgolion yn ymwneud â'r: amser a dreuliwyd y tu allan

i'r ystafell ddosbarth gan athrawon i gynllunio a dylunio'r cwricwlwm; costau staffio ychwanegol yn gysylltiedig â chreu swyddi newydd neu staff yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol; a gweithgaredd dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â pharatoi ar gyfer y cwricwlwm. Dywedodd uwch arweinwyr fod y costau hyn yn cael eu talu'n uniongyrchol drwy gymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer y cwricwlwm neu o gyllidebau ysgolion.

*Materion i'w hystyried*

19. Awgryma'r ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gydag ysgolion yn ystod hydref 2021 mai'r meysydd allweddol ble yr oedd angen cymorth pellach gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid haen ganol ar y pryd oedd:

- Yr angen i fynd i'r afael â'r **cyfyngiadau amser** sydd wedi cyfyngu ar allu rhai ysgolion i fwrw ymlaen â pharatoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Beth arall y gellir ei wneud i ganiatáu amser a lle i ysgolion gynllunio a dylunio gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd?
- **Ymgysylltiad anghyson**: Sut y gellir cefnogi uwch arweinwyr mewn ysgolion i sicrhau bod mwy o staff yn ymgysylltu â gweithgareddau cynllunio a dylunio'r cwricwlwm, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd?
- **Gwella sgiliau a hyder:** Pa gamau pellach y gellir eu cymryd i hybu sgiliau a hyder y gweithlu i gyfrannu'n ystyrlon at ddylunio'r cwricwlwm?
- **Cynyddu a gwella ansawdd y cymorth sydd ar gael:** A fyddai modd darparu cymorth pellach i helpu paratoadau ysgolion ar gyfer y cwricwlwm a rhoi sicrwydd ynghylch addasrwydd a chyfeiriad eu camau i wireddu'r cwricwlwm? Gallai hyn gynnwys deunyddiau ategol, gan roi enghreifftiau o ddulliau dylunio neu gynllunio effeithiol.
- **Mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar gymorth ymarferol:** Sut y gellir gwella mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol? A fyddai modd addasu'r cynnig dysgu proffesiynol presennol i ganolbwyntio'n fwy ar gymorth ymarferol i helpu i gynllunio a dylunio'r cwricwlwm?

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru ac o ddiben yr astudiaeth gwmpasu, gyda'r nod o helpu i gefnogi blaenoriaethau ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol.

### Y Cwricwlwm i Gymru

1.2 Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy'n codi safonau addysgol ac sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Pedwar diben y cwricwlwm yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru. Yn adroddiad yr OECD ar wella ysgolion yng Nghymru (Improving Schools in Wales 2014) ac adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson (2015), cyflwynwyd y sail resymegol dros y diwygiadau ynghyd ag argymhellion ynghylch sut i ddylunio cwricwlwm newydd sy'n addas ar gyfer y Gymru gyfoes. O dan y diwygiadau, mae pob ysgol wrthi'n datblygu ei chwricwlwm ei hun, gyda chymorth canllawiau cenedlaethol, a fydd yn galluogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm drwy ddod yn:

- **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- **cyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- **dinasyddion egwyddorol, gwybodus** yng Nghymru a'r byd
- **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywydau gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

1.3 O dan y Cwricwlwm i Gymru, bydd y pynciau'n cael eu trefnu ar sail chwe Maes Dysgu a Phrofiad (Meysydd): y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; y dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg.

1.4 Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn hyrwyddo dull integredig o ddysgu ac addysgu. Mae'n annog cydweithio a chynllunio ac addysgu trawsddisgyblaethol i alluogi dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng y gwahanol Feysydd a defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau newydd.

1.5 O dan drefniadau'r cwricwlwm newydd mae ysgolion yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol ar hyd continwwm dysgu o 3 i 16 oed. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn disgrifio egwyddorion cynnydd o ran y cwricwlwm a'r Meysydd unigol, ynghyd â chamau cynnydd a ategir gan ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig a disgrifiadau dysgu. Yn gysylltiedig â hyn, dylai'r asesu fod yn ffurfiannol, dylai ganolbwyntio ar y dysgwr, a dylid ei ddefnyddio'n sail i sut y mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau. Un o'r nodweddion sy'n diffinio'r dull newydd yw bod y cwricwlwm, y trefniadau asesu ac addysgeg yn cael eu gweld fel elfennau o gyfanwaith. integredig

1.6 I gyd-fynd â'r diwygiadau i'r cwricwlwm, ceir dull cenedlaethol o ymdrin â gweithgaredd dysgu proffesiynol; ceir trefniadau gwerthuso a gwella newydd; mae'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth ym maes anghenion dysgu ychwanegol wedi'u trawsnewid; ac mae cymwysterau newydd yn cael eu datblygu.

1.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o ganllawiau i ysgolion ynghylch sut i fynd ati i ddylunio a gweithredu'r cwricwlwm, gan gydnabod bod y broses o ddatblygu'r cwricwlwm yn un ailadroddus. Roedd y cyhoeddiad diweddaraf *Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm* (2021) yn datblygu ar ddogfennau cynharach ac yn amlinellu'r camau sy'n gysylltiedig â dylunio'r cwricwlwm, sef:

- **ymgysylltu** i ddatblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r cwricwlwm a gweledigaeth ar gyfer yr addysgu a'r dysgu sy'n ei gefnogi;
- **dylunio, cynllunio a threialu** – gan ddefnyddio canllawiau a chymorth;
- **gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf**;
- **addysgu am y tro cyntaf**, dechrau rhoi'r cwricwlwm ar waith, gan fyfyrio ar ei effeithiolrwydd dros amser a mireinio'r dyluniad wrth i ddysgwyr wneud cynnydd.

1.8 At hynny, amlinellodd Llywodraeth Cymru yr egwyddorion y dylai ysgolion eu dilyn wrth baratoi a dylunio'r cwricwlwm: datblygu drwy **gyd-greu**; **addysgeg** effeithiol; ymgysylltu â **dysgu proffesiynol** a rhwydweithiau proffesiynol; ymgorffori rhinweddau **ysgolion fel sefydliadau dysgu**; gan ystyried y **cyd-destun ysgol ehangach**, gan gynnwys sut y gall y cwricwlwm gefnogi'r Cod ADY, strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg*, a hybu iechyd a lles dysgwyr.

### Cefndir yr astudiaeth gwmpasu

1.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Ymchwil Arad, mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yng Nghymru, i gynnal astudiaeth gwmpasu sy'n ymwneud â gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.

1.10 Nod yr astudiaeth gwmpasu yw mynegi'r theori, y rhagdybiaethau, y dystiolaeth a'r parodrwydd sy'n sail i'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu argymhellion ar gyfer rhaglen fonitro a gwerthuso gadarn. Amcanion yr astudiaeth yw:

- asesu paratoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, gan nodi camau gweithredu allweddol ar gyfer cefnogi'r paratoadau.
- datblygu theori rhaglen ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, gan nodi tystiolaeth a rhagdybiaethau allweddol a darparu darlun clir o'r system a'r rhanddeiliaid a fydd yn eu rhoi ar waith.
- nodi'r cwestiynau gwerthuso ac archwilio i ba raddau y gellir eu bodloni'n gredadwy ac yn ddibynadwy gan ddefnyddio ffynonellau data presennol a newydd.
- argymell strategaeth monitro a gwerthuso fanwl ar gyfer mynd i'r afael â chwestiynau'r gwerthusiad.

1.11 Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Ionawr 2022 yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg *Paratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022* o ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion sy'n ymwneud â'r cyntaf o'r amcanion a restrir uchod. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, ac edrychodd ar baratoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

1.12 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cyfweliadau ansoddol gyda 48 o uwch arweinwyr ac ymarferwyr, a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2021, mewn perthynas â pharatoadau eu hysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Recriwtiwyd y rhai a gyfwelwyd o blith yr ymatebwyr i'r arolwg *Paratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022* a gytunodd inni ailgysylltu â nhw. Bydd adroddiad ar elfennau eraill astudiaeth gwmpasu'r gwerthusiad yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn 2022.

1.13 Mae Adran 2 yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r fethodoleg ar gyfer y gwaith ymchwil ansoddol gydag uwch arweinwyr ac ymarferwyr. Mae Adran 3 yn rhoi gwybodaeth

am broffil y rhai a gyfwelwyd. Mae adrannau dilynol yn adlewyrchu’r prif bynciau a ddefnyddiwyd i strwythuro'r trafodaethau:

- Mae Adran 4 yn canolbwyntio ar sylwadau'r rhai a gyfwelwyd ar ymgysylltu a dealltwriaeth;
- Yn Adran 5 cyflwynir canfyddiadau sy'n ymwneud â dylunio, cynllunio a threialu;
- Yn Adran 6 rhoddir crynodeb o'r sylwadau ar weithgareddau gwerthuso ysgolion a'r paratoadau ar gyfer addysgu am y tro cyntaf;
- Yn Adran 7 cyflwynir sylwadau gan uwch arweinwyr ar y costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â diwygio’r cwricwlwm;

Mae astudiaethau achos wedi’u cynnwys yn rhai o’r adrannau uchod sy’n rhoi enghreifftiau o sut y mae ysgolion yn paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae’r astudiaethau achos hyn yn rhoi darlun o’r ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil ac nid ydynt yn cymeradwyo dulliau penodol o wireddu’r cwricwlwm. Amlinellir y casgliadau a'r materion i'w hystyried yn Adran 8.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn darparu manylion am fethodoleg y gwerthusiad. Mae hyn yn cynnwys manylion y broses o ddylunio offeryn ymchwil, y gwaith maes a gynhaliwyd, y broses ddadansoddi, yr heriau a wynebwyd a chyfyngiadau'r fethodoleg.

**Dyluniad yr offeryn ymchwil**

2.2 Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar ymchwilio i ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r arolwg, deall dyfnder a manylder profiadau ysgolion unigol a'r heriau sy'n eu hwynebu wrth baratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Dyluniwyd canllaw cyfweld sy'n canolbwyntio ar waith ysgolion yn ymwneud ag:

- Ymgysylltu a dealltwriaeth;
- Dylunio, cynllunio a threialu;
- Gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf;

I wirio a oedd barn yr ymatebwyr wedi newid rhwng cwblhau'r arolwg (Mehefin a Gorffennaf 2021) a'r cyfweliadau (hydref 2021), atgoffwyd y cyfweleion yn ystod y cyfweliad o'u hymatebion i gwestiynau cyffredinol yr arolwg, a gofynnwyd a fyddent yn dal i ateb yn yr un ffordd. Nododd y mwyafrif helaeth nad oedd eu barn wedi newid rhwng cymryd rhan yn yr arolwg a'r cyfweliad dilynol. Mae'r canllaw trafod ar gyfer y cyfweliad wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

**Samplu a recriwtio**

2.3 Cafodd ymatebwyr i'r arolwg a gytunodd (ym Mehefin a Gorffennaf 2021) i gymryd rhan yn yr ymchwil ansoddol dilynol eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweliad ym mis Hydref a mis Tachwedd 2021. Cytunwyd y byddai uwch arweinwyr ac ymarferwyr o Ysgolion Arloesi ac Ysgolion Braenaru yn cael eu heithrio o'r sampl ar gyfer yr arolwg dilynol.[2] Y sail resymegol dros hyn oedd bod yr ysgolion hyn wedi bod yn ymwneud yn fanwl â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm, wedi cyfrannu'n barhaus at drafodaethau ac felly'n debygol o fod ar y blaen o ran eu paratoadau o

[2] Roedd hyn yn golygu bod 38 o uwch arweinwyr a 7 ymarferydd o Ysgolion Arloesi neu Ysgolion Braenaru wedi'u heithrio o'r gwahoddiadau i gymryd rhan mewn cyfweliadau dilynol. Mae hyn yn cyfateb i 25 y cant o'r uwch arweinwyr ac 16 y cant o'r ymarferwyr a gytunodd i gymryd rhan mewn ymchwil dilynol.

gymharu ag ysgolion eraill: hynny yw, efallai na fydd eu profiad a'u persbectif yn adlewyrchu'r profiadau ehangach mewn ysgolion, sef ffocws yr astudiaeth hon.

2.4 Cytunodd cyfanswm o 150 o ymatebwyr i'r arolwg (113 o uwch arweinwyr a 37 o ymarferwyr) o'r ysgolion hyn inni ailgysylltu â nhw ar gyfer cyfweliad ym mis hydref 2021. Recriwtiwyd y sampl o'r rhai a gyfwelwyd i gynnwys ystod o ysgolion yn ôl math (e.e. cynradd, uwchradd, Unedau Cyfeirio Disgyblion), rhanbarth daearyddol a chyfrwng iaith. Er mwyn cael trawstoriad da o safbwyntiau, roedd y broses recriwtio hefyd yn ystyried ymatebion y rhai a gyfwelwyd i'r arolwg, yn benodol i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad cyffredinol *'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ei chwricwlwm i'w gyflwyno ym mis Medi 2022'*.[3] Roedd y broses recriwtio'n targedu'n benodol y lleiafrif o ymatebwyr a oedd wedi anghytuno â'r datganiad hwn i sicrhau y gellid ymchwilio'n llawn i'r materion a'r heriau yn y cyfweliadau – cafodd pawb a gytunodd inni ailgysylltu â nhw ar gyfer ymchwil bellach eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweliad.

2.5 Cwblhawyd cyfanswm o **48 o gyfweliadau** gydag uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2021. Roedd y cyfweliadau fel arfer yn para tua 45 munud i awr. Cynhaliwyd y rhan fwyaf yn rhithwir drwy Microsoft Teams, a chynhaliwyd ambell un dros y ffôn.

2.6 Drwy gydol y canfyddiadau, defnyddir y termau canlynol i ddisgrifio grwpiau o gyfranogwyr yr ymchwil:

- Defnyddir ***uwch arweinwyr*** i gyfeirio at ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn bennaeth, yn uwch arweinydd neu mewn rôl uwch arweinydd arall (e.e. dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol);
- Defnyddir ***ymarferwyr*** i gyfeirio at ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn arweinydd canol, yn athro, yn Weithiwr Cymorth Dysgu neu bod ganddynt rôl arall heblaw uwch arweinydd (e.e. Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch, myfyriwr Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), clerc ysgol).

---

[3] Ymhlith y 113 o uwch arweinwyr a atebodd y cwestiwn hwn (ac a oedd wedi dewis cael eu cynnwys mewn ymchwil pellach), roedd 87 yn cytuno ac 18 yn anghytuno i raddau amrywiol (dywedodd 8 nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno). Ymhlith y 37 o ymarferwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 22 yn cytuno a 10 yn anghytuno i raddau amrywiol (dywedodd 5 nad oeddent yn nac yn anghytuno).

- Defnyddir ***y rhai a gyfwelwyd*** i gyfeirio at yr holl gyfranogwyr yn yr ymchwil (h.y. uwch arweinwyr ac ymarferwyr gyda'i gilydd).

**Dadansoddiad ansoddol**

2.7 Defnyddiwyd dull fframwaith i ddadansoddi data'r cyfweliadau ansoddol. Mae hyn yn caniatáu inni gynnal dadansoddiad strwythuredig o'r data yn ogystal ag ystyried materion a ddaeth i'r amlwg o'r data ei hun ac nad ydynt wedi'u hystyried o'r blaen o bosibl. Adolygwyd y dystiolaeth i ddechrau yn ystod sesiwn friffio a oedd yn cynnwys yr ymchwilwyr a gynhaliodd y cyfweliadau. Fe wnaeth hyn alluogi'r ymchwilwyr i ddod i gytundeb ar y themâu allweddol sy'n deillio o'r dystiolaeth, a fu'n sail i'r dadansoddiad dilynol.

**Heriau a chyfyngiadau methodolegol**

2.8 Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio rhai o'r heriau a wynebwyd yn ystod y gwaith maes.

2.9 Un broblem a wynebwyd oedd y ffaith i'r gwaith maes gael ei gynnal yn ystod y pandemig COVID-19 ac amharwyd yn sylweddol ar ei gynnydd gan yr heriau a'r newidiadau mynych a oedd yn effeithio ar y sector addysg. Dywedodd llawer o ysgolion nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn y gwaith maes, yn aml oherwydd pwysau amser, ansicrwydd a heriau o ddydd i ddydd yn ymwneud â COVID-19. Ni ddyluniwyd y sampl o 48 o ysgolion i fod yn gynrychioliadol, ond yn hytrach i gynnwys ystod ddigonol o ysgolion (yn ôl cyfrwng iaith a sector) er mwyn cael trawstoriad da o safbwyntiau a phrofiadau.  Nid pwrpas ymchwil ansoddol yw cyflawni cynrychiolaeth lawn (cyflawnwyd hyn yn well gan yr arolwg cynharach) ond yn hytrach caniatáu i ystod eang o faterion gael eu nodi, a chaniatáu trafodaeth ddyfnach.

2.10 Mae'n bwysig cydnabod y risg o ragfarn wrth ddethol y sampl o ysgolion a gymerodd ran yn y cyfweliadau dilynol. Gallai ysgolion a oedd wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill gyda'u gweithgareddau paratoi fod wedi bod yn fwy tebygol o gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliadau dilynol. Defnyddiwyd dull pwrpasol o ddewis sampl, gan hepgor Ysgolion Arloesi ac Ysgolion Braenaru (gweler Adran 2.3), a samplu'n seiliedig ar ymatebion i arolwg blaenorol (gweler Adran 2.4 uchod) er mwyn lliniaru'r risg hon.

## 3. Proffil yr ymatebwyr

3.1 Mae'r adran hon yn nodi proffil y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol. Fel y nodwyd yn Adran 2, mabwysiadwyd dull pwrpasol o ddewis y sampl i sicrhau bod yr ymchwil yn archwilio barn y rhai a oedd yn cytuno bod eu hysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio eu cwricwlwm eu hunain yn ogystal â'r rhai nad oeddent yn teimlo felly. Nid oedd bwriad i'r sampl felly fod yn gynrychioliadol o'r ysgolion na'r ymatebwyr i'r arolwg o ran eu barn ar eu paratoadau ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.

**Proffil y rhai a gyfwelwyd**

3.2 Cyfwelwyd â chyfanswm o 48 o ymatebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys 35 o uwch arweinwyr ac 13 o ymarferwyr. Roedd y sampl yn cynnwys 34 o ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg a 12 o ysgolion cyfrwng Cymraeg.[4, 5] Mae proffil y sampl a gyfwelwyd yn ôl math a chyfrwng (Tabl 1), a rhanbarth (Tabl 2) yr ysgol i'w weld isod.

**Tabl 1. Proffil o'r sampl a gyfwelwyd fesul sector a chyfrwng**

| Sector | Canran y sampl o'r 48 a gyfwelwyd ym mhob categori | | | | Y nifer a gyfwelwyd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Saesneg | Dim dosbarthiad iaith | Cyfanswm | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Saesneg | Dim dosbarthiad iaith | Cyfanswm |
| Cynradd a meithrin* | 13% | 42% | 0% | 54% | 6 | 20 | 0 | 26 |
| Ysgolion pob oed (Canol) | 4% | 0% | 0% | 4% | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Uwchradd** | 8% | 29% | 0% | 38% | 4 | 14 | 0 | 18 |
| Ysgolion arbennig | 0% | 0% | 2% | 2% | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | 1 | 1 |
| Unedau Cyfeirio Disgyblion | 0% | 0% | 2% | 2% | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **25%** | **71%** | **4%** | **100%** | **12** | **34** | **2** | **48** |

*Mae'r categori cynradd cyfrwng Cymraeg yn cynnwys ysgolion dwy ffrwd a throsiannol.
**Mae'r categori uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cynnwys ysgolion dwyieithog.

[4] Gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd dwyieithog dwy ffrwd ac ysgolion pob oed (3-16/3-19). Roedd un o'r rhai a gyfwelwyd yn dod o ysgol arbennig ac un arall o Uned Cyfeirio Disgyblion, sydd ill dau yn lleoliadau nad ydynt wedi'u dosbarthu yn ôl iaith.

[5] Cyhoeddwyd canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r categorïau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r dull categoreiddio cyn Rhagfyr 2021. O dan y dull hwn, roedd ysgolion cynradd yn perthyn i un o bum categori. Roedd ysgolion uwchradd yn perthyn i un o bedwar categori. Mae rhagor o wybodaeth am y categorïau hyn a'r categorïau newydd arfaethedig i'w gweld yn y ddogfen gyfarwyddyd anstatudol uchod.

**Tabl 2. Proffil o sampl y rhai a gyfwelwyd yn ôl rhanbarth**

| Rhanbarth daearyddol | Nifer yn y sampl | Canran yn y sampl |
|---|---|---|
| Canolbarth y de | 13 | 27% |
| Y canolbarth a'r gorllewin | 16 | 33% |
| Y gogledd | 10 | 21% |
| Y de-ddwyrain | 9 | 19% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

3.3 Cafodd y rhai a gyfwelwyd eu proffilio hefyd o ran i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad *'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ei chwricwlwm ei hunain yn barod i'w gyflwyno ym mis Medi 2022'* wrth gwblhau'r arolwg. Yn ystod y broses recriwtio, targedwyd y lleiafrif o ysgolion a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn i sicrhau bod modd ymchwilio i'w barn yn y gwaith maes. Mae Tabl 3 yn dangos bod ymatebwyr a oedd yn anghytuno â’r datganiad hwn, a’r rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ag ef, wedi’u gorgynrychioli rhyw fymryn yn y sampl; mae'r rhai a oedd yn cytuno â'r datganiad wedi'u tangynrychioli rhyw fymryn. Y gobaith oedd recriwtio mwy o ysgolion a oedd yn anghytuno â'r datganiad, ond nid oedd hyn yn bosibl yn ystod cyfnod y gwaith maes.

**Tabl 3. Proffil o'r sampl a gyfwelwyd yn ôl i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad *'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ei chwricwlwm ei hunain yn barod i'w gyflwyno ym mis Medi 2022'.***

| I ba raddau y cytunwyd â'r datganiad *'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ei chwricwlwm ei hun yn barod i'w gyflwyno ym mis Medi 2022'.* | Y nifer a gytunodd inni ailgysylltu â nhw ar gyfer cyfweliad | % a gytunodd inni ailgysylltu â nhw ar gyfer cyfweliad | Y nifer a gyfwelwyd | % y rhai a gyfwelwyd |
|---|---|---|---|---|
| Niwtral | 14 | 9% | 6 | 13% |
| Anghytuno* | 28 | 19% | 11 | 23% |
| Cytuno* | 109 | 72% | 31 | 65% |
| **Cyfanswm** | **151** | **100%** | **48** | **100%** |

*Yn cynnwys y rhai a oedd yn cytuno/anghytuno'n gryf ac yn cytuno/anghytuno i raddau

## 4. Ymgysylltu a dealltwriaeth

4.1 Mae’r adran hon yn amlinellu canfyddiadau’r ymchwil mewn perthynas ag ymgysylltiad y rhai a gyfwelwyd â’r broses o ddiwygio’r cwricwlwm a’u dealltwriaeth o wahanol elfennau o’r diwygiadau.

4.2 Holwyd y cyfweleion am nifer o faterion yn ymwneud â chynnwys y staff yn y broses o ddiwygio’r cwricwlwm a datblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau ynghylch:

- pa **gamau yr oedd eu hysgolion wedi gallu eu cymryd** i ddatblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r Cwricwlwm i Gymru;
    - yr hyn a **weithiodd yn dda** ac unrhyw **rwystrau** a wynebwyd;
- a oedd **eu hysgol wedi datblygu gweledigaeth** ar gyfer eu cwricwlwm ac, os felly, sut;
- a oedd **dysgwyr**, **rhieni**, a'r **gymuned ehangach** wedi bod **cymryd rhan mewn trafodaethau** am gwricwlwm eu hysgol ac os felly, sut;
- **sut y byddai'r cwricwlwm newydd yn wahanol** o safbwynt y dysgwr.

4.3 Yn ystod y trafodaethau, rhoddodd y rhai a gyfwelwyd eu barn ar y **wybodaeth a'r canllawiau** yr oeddent wedi'i dderbyn ar y Cwricwlwm i Gymru gan wneud sylwadau ar **ddealltwriaeth** yr ymarferwyr o'r newidiadau i'r cwricwlwm mewn termau mwy cyffredinol. Trafodir y canfyddiadau sy'n ymwneud â phob un o'r materion hyn isod.

### Camau a gymerwyd i ddatblygu dealltwriaeth ysgolion o'r Cwricwlwm i Gymru

4.4 Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd amrywiaeth o gamau yr oedd eu hysgolion wedi’u cymryd i ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr o'r Cwricwlwm i Gymru. Y mathau o weithgareddau a grybwyllwyd amlaf gan y rhai a gyfwelwyd oedd:

- Uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (ac ymarferwyr, ar adegau), yn cael y dasg o **ddarllen a dehongli rhannau o'r canllawiau**, ac yna'n cywain a chyflwyno gwybodaeth i staff eraill yn ystod cyfarfodydd;

- Mewn llawer o achosion, roedd hyn yn golygu **ysgolion yn datblygu eu canllawiau a'u dogfennau mewnol eu hunain** er mwyn dehongli a rhannu gwybodaeth **haws ei hamgyffred** am y cwricwlwm;
- Mewn llawer o achosion, gwnaed hyn gan **grwpiau o staff a oedd yn cwmpasu pob un o'r Meysydd**, a chyflwynwyd y canfyddiadau yn ystod sesiynau ysgol gyfan.

- Ysgolion yn cynnal **cyfarfodydd staff rheolaidd i drafod agweddau penodol ar y broses o ddiwygio’r cwricwlwm**, gan ganolbwyntio ar rannau penodol o'r canllawiau. Roedd amlder y cyfarfodydd hyn yn amrywio fesul ysgol o sesiynau wythnosol i drafodaethau mwy ad hoc;
  - Mewn llawer o achosion, roedd y mathau hyn o gyfarfodydd yn cynnwys grwpiau o staff yn cydweithio i **adolygu neu archwilio eu darpariaeth bresennol,** i ystyried i ba raddau y mae'n 'cwmpasu' agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru yn ddigonol, ac i nodi blaenoriaethau i weithio arnynt nesaf;
  - Mewn rhai achosion, gofynnwyd i ymarferwyr adolygu agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru a **myfyrio ar i ba raddau yr oedd y rhain (e.e. y 12 egwyddor addysgeg) wedi'u hymgorffori** o fewn eu hymarfer proffesiynol;
  - Mewn rhai achosion, disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd weithgarwch ar y cyd i **ddatblygu deunyddiau ymarferol**, megis templedi cynllunio a 'dogfennau cwmpasu' i'w helpu i ddylunio eu cwricwlwm newydd;
  - Roedd un ysgol wedi mabwysiadu **'wythnos anghymesur'** lle roedd ymarferwyr yn cael hanner diwrnod ysgol wedi'i neilltuo ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol bob wythnos, gyda llawer ohono'n cael ei neilltuo i'r newidiadau i'r cwricwlwm;
- Ysgolion yn **neilltuo diwrnodau HMS a 'sesiynau cyfnos' i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth eu staff** o agweddau ar y diwygiadau i'r cwricwlwm;

- Uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn cymryd rhan mewn **gweithgareddau dysgu proffesiynol a ddarperir gan bartneriaid allanol** megis y consortia rhanbarthol;
    - Mewn ambell achos, roedd ysgolion wedi **comisiynu partneriaid allanol (e.e. academyddion, arbenigwyr Maes) i gyflwyno sesiynau dysgu proffesiynol i'w staff** ar wahanol agweddau ar ddiwygio'r cwricwlwm;
- Uwch arweinwyr yn **ymweld ag ysgolion eraill neu'n cynnal cyfarfodydd ar y cyd** i ddysgu o brofiadau ei gilydd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod eu hysgolion yn ymwneud â mwy nag un o'r gweithgareddau uchod.

> 'Rydym wedi cynnal nifer o sesiynau cyfnos gyda'n gilydd yn edrych ar y dogfennau ac yn eu dadansoddi fesul adran. Rydym wedi cael sesiynau ychwanegol i geisio gweld beth fydd y drefn o ran asesu.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

4.5 Mewn llawer o ysgolion, roedd uwch arweinwyr wedi mabwysiadu **dull dilyniannol** o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth eu staff o newidiadau i'r cwricwlwm. Mewn rhai ysgolion, roedd y broses hon wedi dechrau dros bum mlynedd yn ôl, tra bod eraill ar gam ymgysylltu cynharach. Roedd enghreifftiau o sut yr oedd ysgolion wedi dilyniannu eu gweithgareddau yn cynnwys canolbwyntio i ddechrau ar:

- Staff ar **gam addysg** penodol (e.e. staff Cyfnod Allweddol 2 yn y cynradd) neu staff mewn **Maes neu adran** benodol (e.e. y dyniaethau, iechyd a lles);
    - Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd sut yr oeddent wedi defnyddio’r wybodaeth a gafwyd o’r gweithgarwch cynnar hwn i addasu eu dull o ymgysylltu ag ymarferwyr eraill yn eu hysgol.
- Canolbwyntio ar **agwedd benodol ar y Cwricwlwm i Gymru**, megis ymgorffori'r datganiadau 'yr hyn sy'n bwysig' neu'r 12 egwyddor addysgeg yn eu darpariaeth yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac agweddau eraill (e.e. elfennau gorfodol y cwricwlwm) yn yr ail flwyddyn;
    - Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo bod y dull dilyniannol hwn yn gwneud y broses yn haws ei rheoli. Er enghraifft, teimlai rhai fod

canolbwyntio ar y 12 egwyddor addysgeg wedi rhoi sylfaen gref i'w staff ar gyfer cyflwyno agweddau eraill ar ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.

4.6 Nododd rhai uwch arweinwyr fod mabwysiadu **dull dilyniannol** o ddatblygu dealltwriaeth eu staff wedi arwain at anghydbwysedd yn nealltwriaeth eu staff o'r diwygiadau i ddechrau. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo bod manteision ymgysylltu â staff mewn ffordd fwy hylaw (e.e. mewn grwpiau llai) yn drech na hynny, ac y gellid mynd i'r afael â'r amrywiadau hyn yng ngwybodaeth a dealltwriaeth eu staff yn ddiweddarach yn y broses.

4.7 Dywedodd y rhai a gyfwelwyd a oedd wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddisgrifir uchod eu bod yn ddefnyddiol o ran datblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd hefyd fod y budd a ddeilliodd o'r gweithgareddau hyn yn **dibynnu ar gael digon o amser** i gynllunio a chymryd rhan ynddynt, a oedd yn aml yn creu her mewn amgylcheddau ysgol prysur. Pwysleisiodd llawer o gyfweleion bwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth gyda staff i ddatblygu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac ethos y Cwricwlwm i Gymru.

> 'Nid yw canllawiau ar y cwricwlwm yn hawdd eu darllen. Mae angen mynd yn ôl atyn nhw sawl gwaith. Felly dyna pam y gwnaethon ni cymaint o waith ar ymgysylltu a dealltwriaeth, ac fe wnaeth y staff ddatblygu eu dyddlyfrau cwricwlwm eu hunain y buont yn myfyrio arnynt yn unigol a gyda'i gilydd. Nid mater i un person yw ei greu, mae'n rhywbeth i'r ysgol gyfan gymryd rhan ynddo.'
> Uwch arweinydd, ysgol gynradd

4.8 Teimlai llawer o'r rhai a gyfwelwyd ei bod yn werthfawr i staff a dysgwyr dreulio amser yn dehongli ac yn mynegi eu dealltwriaeth eu hunain o'r pedwar diben gan fod hynny'n darparu sylfaen gref ar gyfer dylunio a threialu cynnwys newydd. Roedd llawer yn teimlo bod eu hysgol bellach wedi cyrraedd pwynt ar eu taith gwricwlaidd lle roedd sesiynau mwy ymarferol a oedd yn canolbwyntio ar ddylunio, cynllunio a threialu yn fwy gwerthfawr iddynt, ond roeddent yn dal i bwysleisio pwysigrwydd y gweithgaredd ymgysylltu cynnar hwn.

4.9 Nododd y rhan fwyaf o gyfweleion fod cyfleoedd i rannu a dysgu am brofiadau ysgolion eraill yn werthfawr. Roedd enghreifftiau o'r mathau hyn o ddulliau a grybwyllwyd gan ysgolion yn cynnwys:

- Mynychu **cyfarfodydd rhwydwaith**[6] awdurdodau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol i glywed am brofiadau pobl eraill;
    - Dywedodd rhai eu bod wedi cael mynediad at adnoddau ar-lein a recordiadau o gyfarfodydd a drefnwyd gan y consortia rhanbarthol;
- Mynychu **cyfarfodydd anffurfiol** gyda'u cynghorydd herio (e.e. sesiynau 'cwricwlwm coffi') i glywed am brofiadau eraill a'u trafod;
- Mynychu **cyfarfodydd neu ymweliadau ag ysgolion eraill** (e.e. cyfarfodydd clwstwr) i rannu syniadau a phrofiadau;
    - Penodi ymarferwyr i arwain gweithgarwch clwstwr, gan olrhain cynnydd yn ystod y cyfnod pontio o'r cynradd i'r uwchradd;
    - Mewn rhai achosion, dywedodd y rhai a gyfwelwyd eu bod yn mynychu cyfarfodydd clwstwr neu weithgorau yn rheolaidd gyda staff ysgolion clwstwr eraill bod y cyfarfodydd hynny'n canolbwyntio ar Faes penodol;
    - Roedd rhai ysgolion wedi datblygu cydweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ar gyfer eu clwstwr ysgolion.

> 'Cawsom gyfarfodydd gyda phenaethiaid o'r clwstwr ar sut i gyflwyno'r newidiadau [i'r cwricwlwm] i'r staff mewn ffordd gadarnhaol. Sut i'w rhannu'n ddarnau hylaw i'w hatal rhag cael eu brawychu gan y newidiadau. Fe wnaethom dreulio amser yn egluro i'r staff ein bod yn newid er mwyn ymateb i anghenion y disgyblion a'r gymdeithas ehangach.' Ymarferydd, ysgol gynradd

*Rhwystrau i ddatblygu dealltwriaeth ysgolion o'r newidiadau i'r cwricwlwm*

4.10 Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd at **ddiffyg amser** fel rhwystr i ddatblygu dealltwriaeth ysgol gyfan, a nododd fod COVID-19 wedi gwaethygu’r pwysau amser yn ogystal â’i gwneud yn anos cael athrawon cyflenwi er mwyn i staff allu cymryd rhan mewn gweithgareddau’n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Pwysleisiodd

---

[6] Dechreuodd cyfres o Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol yn ymwneud â'r Cwricwlwm newydd i Gymru ganol mis Hydref 2021. Yn dibynnu ar union amseriad y cyfweliad, efallai fod ymarferwyr wedi cael y cyfle i fynychu un o sgyrsiau cynnar y Rhwydwaith Cenedlaethol. Llwyfan agored yw'r Rhwydwaith Cenedlaethol sy'n cynnig cyfle i bob ysgol yng Nghymru drafod materion allweddol yn ymwneud â gweithredu’r cwricwlwm. Mae’r sgyrsiau hyn yn cael eu cynnal ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ac, fel y bo’n briodol, gydag awdurdodau lleol. Bydd y sgyrsiau hyn yn adeiladu ar ddysgu proffesiynol ar lefel ranbarthol, gan ddod ag ymarferwyr ledled Cymru ynghyd i ddatblygu dulliau o fynd i'r afael â materion gweithredu cenedlaethol.

ymarferwyr uwchradd yn arbennig eu bod yn ystyried pwysau amser yn rhwystr, gan dynnu sylw at y ffaith bod yr amser a gymerir i asesu graddau a bennir gan ganolfan yn ystod y pandemig wedi lleihau'r cyfleoedd i ymgymryd â gweithgarwch sy'n ymwneud â'r cwricwlwm. Dywedodd rhai eu bod wedi gweld 'yr un ysgolion' yn cael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd yn ymwneud â newidiadau i'r cwricwlwm, a'u bod yn pryderu bod rhai ysgolion eraill wedi ymddieithrio o'r broses.

4.11 Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd fod y **pandemig wedi amharu** ar eu cynnydd o ran datblygu dealltwriaeth ysgol gyfan, a bod llawer o weithgarwch wedi'i atal o fis Mawrth 2020 ymlaen. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, teimlai ambell un ei fod wedi cael mwy o gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o'r diwygiadau yn ystod cyfnod cynnar y pandemig. Esboniodd y rhain eu bod wedi gallu cymryd rhan mewn mwy o weithgaredd dysgu proffesiynol oherwydd bod ganddynt fwy o amser i wneud ymchwil tra'n gweithio o bell yn ystod y 'cyfnodau clo'. Roedd ambell un wedi ei chael hi'n haws cydweithio mewn ffyrdd newydd tra'n gweithio o bell (e.e. cydweithio ar draws Meysydd yn hytrach na phynciau neu adrannau). Dengys y canfyddiadau fod ysgolion wedi'u heffeithio i raddau amrywiol gan y pandemig, yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis proffil y dysgwyr a'r teuluoedd yn yr ysgol, natur y ddarpariaeth 'hyb' leol, capasiti presennol ysgolion i ddarparu gweithgaredd dysgu digidol a gweithgaredd ar y cyd, a chyfraddau absenoldeb staff.

4.12 Roedd y **cyfathrebu rhwng uwch arweinwyr ac ymarferwyr** o fewn ysgolion yn ymddangos yn rhwystr i rai. Roedd rhai ymarferwyr, yn enwedig y rheini mewn ysgolion uwchradd, o'r farn nad oeddent yn ymwybodol o'r holl weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal yn eu hysgol. Roedd rhai ymarferwyr uwchradd yn gallu disgrifio'r strwythurau a oedd wedi'u sefydlu yn eu hysgol i ganolbwyntio ar ddatblygu'r cwricwlwm (e.e. gweithgorau Maes, cyfarfodydd clwstwr), ond roeddent yn teimlo bod llawer o'r gweithgaredd yn digwydd 'y tu ôl i'r llenni' ac nad oeddent bob amser yn cael gwybod am gynnydd a chanlyniadau.

4.13 Amlygodd rhai uwch arweinwyr **heriau wrth ymgysylltu â lleiafrif o'u staff** a oedd yn fwy cyndyn i ymwneud â'r diwygiadau. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr bwysigrwydd datblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r newidiadau i'r cwricwlwm.

> 'Mae gennym ni rai staff, fel ym mhob ysgol, sydd wedi bod yn yr ysgol ers amser maith ac wedi gweld newidiadau yn mynd a dod, ac maen nhw'n meddwl 'os byddaf yn cadw fy mhen i lawr yna bydd popeth yn iawn'. Mae'n bwysig symud i ffwrdd o hynny. Rydym wedi cyrraedd pwynt lle mae'r 'ychydig cyndyn' wedi cael eu llusgo yn eu blaenau gan y mwyafrif brwdfrydig.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

4.14 Mynegodd rhai uwch arweinwyr bryder bod y gweithlu addysg, yn eu hysgolion eu hunain ac yn gyffredinol, **yn brin o brofiad a sgiliau i ddylunio cwricwlwm newydd**, gan nodi bod diffyg hyder ymysg staff yn creu cryn ansicrwydd. Roedd pryder ynghylch diffyg hyder yn fwy amlwg yn y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod hydref 2021 nag yn nata arolwg haf 2021, lle yr oedd mwyafrif helaeth yr uwch arweinwyr yn cytuno bod gan eu staff y sgiliau angenrheidiol i ddylunio'r cwricwlwm newydd.[7] Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn cwestiynu a oeddent 'ar y trywydd iawn' o ran y dull yr oeddent wedi'i fabwysiadau ar gyfer y cwricwlwm gan ddweud eu bod yn chwilio am sicrwydd mai dyna oedd yr achos.

> 'Fy mhryder oedd ein diffyg sgiliau fel cynllunwyr cwricwlwm. Roedd y Cwricwlwm Cenedlaethol blaenorol yn rhagnodol iawn ac wedi'i arwain gan atebolrwydd a oedd wedyn yn llywio'r hyn oedd yn y dasg asesu.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

4.15 Roedd barn gymysg ymhlith y rhai a gyfwelwyd ar y gweithgaredd dysgu proffesiynol yr oeddent wedi manteisio arno mewn perthynas â diwygio'r cwricwlwm. Teimlai rhai ysgolion fod y gweithgaredd dysgu proffesiynol yr oeddent wedi manteisio arno, yn bennaf drwy gonsortia rhanbarthol, yn werthfawr o ran datblygu eu dealltwriaeth o'r newidiadau i'r cwricwlwm. Fodd bynnag, roedd eraill yn llai cadarnhaol gan ddweud nad oeddent yn hyderus y byddent yn gallu cael y cyfleoedd dysgu proffesiynol yr oedd eu hangen arnynt i helpu i ddylunio'r cwricwlwm newydd. O blith y rhain, nododd ambell un nad oedd y gweithgaredd dysgu proffesiynol yr oeddent wedi manteisio arno yn canolbwyntio digon ar gymorth ymarferol ac enghreifftiau i gefnogi eu dealltwriaeth o'r newidiadau i'r cwricwlwm. Roedd canfyddiadau'r cyfweliadau'n adlewyrchu'r safbwyntiau cymysg a gasglwyd yn ystod yr arolwg, yn benodol bod ymarferwyr yn llai tebygol nag uwch

[7] Nododd adroddiad yr arolwg "Roedd mwyafrif helaeth (95 y cant) yr uwch arweinwyr yn cytuno â'r datganiad 'Mae gan fy ysgol staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddylunio'r cwricwlwm newydd'." Gweler Llywodraeth Cymru (2022), *Arolwg ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: adroddiad terfynol*.

arweinwyr o fod â safbwyntiau cadarnhaol ar ddysgu proffesiynol a'u gallu i gael mynediad ato.

*Camau a gymerwyd i ddatblygu dealltwriaeth ysgolion o'r trefniadau asesu*

4.16 Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd, o gymharu ag elfennau eraill ar ddiwygio'r cwricwlwm, eu bod wedi cymryd rhan mewn **llai o weithgareddau i ddatblygu eu dealltwriaeth o drefniadau asesu** i gefnogi cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, dywedodd y rhai a gyfwelwyd yn gyffredinol eu bod ar gam cynharach o ran ymgysylltu ag asesu ac, o ganlyniad, bod ganddynt lai o ddealltwriaeth o'r trefniadau asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr o gymharu ag agweddau eraill ar y newidiadau i'r cwricwlwm. Dywedodd llawer eu bod yn ansicr ynghylch sut i symud ymlaen neu'n aros am ganllawiau pellach ar asesu, ac felly nid oeddent yn rhoi cymaint o flaenoriaeth i hyn eto ag agweddau eraill ar ddiwygio yn eu hysgol.

> 'Mae asesu yn broblem fawr. Rwyf wedi darllen yr ymgynghoriad ar asesu a dydw i fawr cliriach.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd
>
> 'Rydym yn teimlo bod angen i ni wneud rhywbeth [ynglŷn ag asesu], dydyn ni ddim yn gwybod beth yw'r peth gorau i'w wneud ar hyn o bryd.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd
>
> 'Mae asesu yn ddirgelwch mawr ar hyn o bryd… …Mae yna elfen o orfeddwl mewn perthynas ag asesu, ac mae'r cyfan yn cael ei yrru ar lefel ysgolion unigol. Rwy'n meddwl y byddai pob athro yn hoffi siarad mwy â'u cymheiriaid amdano ac nid yw'r cyfleoedd hynny wedi codi. Mae'n dipyn o dwll du ar hyn o bryd.' Ymarferydd, ysgol gynradd

4.17 Disgrifiodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd sut yr oeddent wedi adolygu'r camau cynnydd yn eu hysgol ac wedi 'mapio' neu 'archwilio' eu darpariaeth yn erbyn y rhain. Ystyriwyd bod hyn yn ddefnyddiol o ran **datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r camau cynnydd** ar draws yr ysgol yn ogystal ag ystyried a oedd darpariaeth eu hysgol yn cwmpasu'r rhain yn ddigonol. Roedd ambell un yn teimlo bod y camau cynnydd yn rhy amwys ac nad oeddent yn rhoi digon o fanylion er mwyn datblygu eu trefniadau asesu eu hunain i gefnogi cynnydd dysgwyr. Dywedodd ambell un hefyd ei fod yn ei chael hi'n heriol osgoi croesgyfeirio unrhyw ddulliau asesu newydd â'r lefelau a ddefnyddiwyd ganddynt yn flaenorol ar gyfer asesiadau cyfnodau allweddol.

> 'Gyda'r camau cynnydd, rwy'n teimlo bod gen i'r goeden o hyd ond fy mod i wedi colli'r dail.' Ymarferydd ysgol uwchradd

4.18 Roedd llawer o’r rhai a gyfwelwyd yn bryderus ynghylch sut i ddatblygu trefniadau asesu a fyddai’n cael eu hystyried yn ddigonol gan bartneriaid allanol, megis Estyn a chonsortia rhanbarthol. Codwyd hyn yn aml yn y cyfweliadau ochr yn ochr â **phryderon ynghylch trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol** a pha ofynion y gallai'r rhain eu gosod ar eu hysgol.

> 'Rwy'n meddwl 'Rwy'n gwybod bod fy nysgwyr yn dod yn eu blaenau', ond sut mae profi hynny, a beth sydd angen i mi ei wneud i brofi hynny?' Ymarferydd, ysgol gynradd

4.19 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod sicrhau dealltwriaeth gyson o drefniadau asesu er mwyn cefnogi **cynnydd dysgwyr rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd** yn her. Eglurodd rhai eu bod wedi dechrau cymryd rhan mewn cyfarfodydd clwstwr, yn cynnwys cynrychiolwyr ysgolion bwydo cynradd ac ysgolion uwchradd, a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu proses asesu gydlynol i gefnogi pontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, roedd y rhai a gyfwelwyd yn tueddu i ddisgrifio'r rhain fel trafodaethau 'cam cynnar' a oedd yn codi materion i'w hystyried yn hytrach na datblygu atebion.

4.20 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd, yn arbennig y rhai o ysgolion uwchradd, yn teimlo bod y **diffyg eglurder ynghylch ffurf cymwysterau yn y dyfodol i ddisgyblion 16 oed** yn rhwystr i ddeall y newidiadau i'r cwricwlwm ac i ymgysylltu â nhw. Mewn rhai ysgolion, dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod staff yn ymgysylltu â Cymwysterau Cymru ar ddiwygio’r cwricwlwm, a’u bod yn gobeithio y byddai hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gliriach. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roeddent yn teimlo bod ansicrwydd ynghylch cymwysterau yn creu heriau i ymarferwyr o ran deall yr hyn y dylai dysgwyr fod yn anelu ato.

> 'Staff yn ei gweld yn anodd, ddim yn gwybod beth yw’r ‘end game’ i blant ar ddiwedd Blwyddyn 11, ei gweld yn anodd mapio allan sut mae pethau’n mynd i edrych o ran asesu. Mae pryder, sut mae hyn yn mynd i edrych.' Uwch arweinydd, Ysgol uwchradd

> 'Mae yna ddwy garfan gyffredinol o staff yn yr ysgol - y rhai sy'n 'edrych ar y darlun mawr' sy'n hoffi'r ffocws ar ethos, y weledigaeth, y daith ac ati, a'r rhai sy'n 'meddwl drwy systemau' sy'n hoffi canolbwyntio ar gynlluniau gwaith, ar gynllunio. Rydyn ni'n dibynnu'n fawr nawr ar y cynllunwyr [y rhai sy'n 'meddwl drwy systemau'] ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd methu â gweld popeth ar bapur oherwydd nad ydyn nhw'n gallu gweld yr asesiad. Rydyn ni'n cael trafferth gweld y llwybrau i ddysgwyr.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

4.21 Mae dwy astudiaeth achos yn dilyn sy'n rhoi enghreifftiau o sut y mae ysgolion yn datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o'r Cwricwlwm i Gymru.[8]

[8] Mae’r astudiaethau achos hyn yn rhoi darlun o’r ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil ac nid ydynt yn cymeradwyo dulliau penodol.

**Astudiaeth Achos 1: Ysgol gynradd**
**Thema: Neilltuo amser i ymgorffori ymgysylltu a dealltwriaeth**

**Trosolwg o gynnydd yr ysgol o ran ei pharatoadau**

Adroddodd yr ysgol ei bod mewn sefyllfa dda i ddylunio ei chwricwlwm ei hun a gwneud newidiadau i ymarfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o waith paratoi wedi'i wneud eisoes, gan **ganolbwyntio'n bennaf ar ddysgu proffesiynol** ac mae hyn wedi bod yn effeithiol iawn. Rhoddir amlygrwydd cynyddol i **Lais y Disgybl** ac mae mwy o weithgareddau'n cael eu rhannu gyda rhieni gan gynnwys yn ystod digwyddiadau dathlu tymhorol.

**Y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgol**

Mae **neilltuo amser** i ymgorffori'r Cwricwlwm i Gymru a ffyrdd newydd o weithio, a hyrwyddo ymgysylltiad â'r gymuned ysgol ehangach wedi bod yn hollbwysig. Mae'r gweithgareddau sydd wedi cefnogi'r cynnydd cadarnhaol yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Sicrhau bod y staff yn ymgyfarwyddo â'r Cwricwlwm i Gymru | Ymgynghori â rhanddeiliaid ehangach er mwyn pennu blaenoriaethau |
| Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol i bob aelod o staff un prynhawn yr wythnos | Penodi arweinwyr Maes |
| Cysylltu pob gweithgaredd Dysgu Proffesiynol â'r safonau proffesiynol | Cyflwyno system tracio camau cynnydd |
| Newid y dull o sicrhau Llais y Disgybl | Ymgysylltu â rhieni |

Rhoddodd **diwrnodau HMS** gyfleoedd i sefydlu rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau pawb. Neilltuwyd **hanner diwrnod bob wythnos** i'r staff ar gyfer gweithgaredd Dysgu Proffesiynol; mae pob gwers yn gorffen amser cinio, gyda darpariaeth ar ôl ysgol ar gael i ddysgwyr os oes angen. Y prif ffocws ar gyfer Dysgu Proffesiynol fu'r **egwyddorion addysgeg**. Er bod **arweinwyr Maes** wedi'u penodi mae ffocws ar sicrhau bod yr holl staff yn deall yr holl Feysydd. Rhoddir mwy o amlygrwydd i **lais y disgybl** nawr a chaiff ei ddefnyddio'n wahanol; mae athrawon yn arwain am chwe wythnos ar bwnc, mae llais y disgybl yn cael ei gasglu drwy gydol y cyfnod hwn, ac am weddill y tymor cyflwynir testunau a arweinir gan ddisgyblion sy'n gysylltiedig â'r thema.

**Beth sydd wedi gweithio'n dda?** Cynhaliwyd sesiynau **HMS ffurfiol a mwy anffurfiol** gydag ysgol gynradd arall i ddysgu am weithgaredd dysgu proffesiynol ysgolion eraill. Mae staff yn gweithio mewn triawdau ac yn addysgu eu cymheiriaid, a chydnabyddir ei bod yn bwysig rhannu'r llwyddiannau a'r hyn na fu mor llwyddiannus, a rhannu'r holl ddysgu. Mae staff wedi symud ar draws y cyfnodau i ddysgu mwy am rolau ei gilydd.

Fodd bynnag, nid yw'r **atebolrwydd** mor glir ag y gallai fod, ac mae angen sicrwydd ar staff bod eu dulliau yn gydnaws â'r system werthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae risg y bydd rhai aelodau o'r staff yn teimlo'n ynysig gan nad ydynt yn siŵr beth i'w wneud.

**Astudiaeth Achos 2: Ysgol pob oed (3-16)**
**Thema: Dull dilyniannol o sicrhau bod yr ysgol gyfan yn ymgysylltu ac yn datblygu dealltwriaeth**

**Trosolwg o gynnydd yr ysgol o ran ei pharatoadau**

Mae’r ysgol wedi canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth gref o’r 12 egwyddor addysgeg ymhlith staff ac ar ddatblygu ei dehongliad ei hun o’r pedwar diben. Teimla'r ysgol fod ei gwaith dylunio a threialu yn mynd yn dda, ond bod diffyg sgiliau 'lefel uchel' gan y staff o ran dylunio'r cwricwlwm.

**Y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgol**

Cam cyntaf cynllun gweithredu cwricwlwm yr ysgol oedd datblygu dealltwriaeth gref o addysgeg ar draws yr ysgol drwy ganolbwyntio ar y 12 egwyddor addysgeg. Y sail resymegol dros y dull hwn oedd y byddai’r egwyddorion hyn yn aros yn gyson drwy’r amser ac yn berthnasol i'r ddarpariaeth bresennol a darpariaeth yn y dyfodol, waeth beth fo cynnwys y cwricwlwm newydd. Roedd uwch arweinwyr yn teimlo bod dealltwriaeth o 'sut beth yw addysgeg dda' ymhlith y staff erbyn hyn. Mae'r staff hefyd wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu fersiwn o'r pedwar diben sy'n canolbwyntio ar eu hysgol nhw. Roedd dysgwyr hefyd yn cymryd rhan yn y broses hon sydd wedi helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm.

| | |
|---|---|
| Canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth staff o addysgeg | Datblygu ei fersiwn ei hun o'r pedwar diben gyda'r dysgwyr |
| Pwyllgor clwstwr lleol yn datblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y clwstwr | Penodi arweinwyr Maes |

Mae’r ysgol wedi penodi 6 arweinydd i oruchwylio’r chwe Maes tra’n parhau i weithio yn eu maes pwnc. Mae arweinwyr Maes yn rhaeadru gwybodaeth ar draws yr ysgol ac yn helpu i ddistyllu canllawiau i staff. Mae’r ysgol wedi cyflwyno llawer o sesiynau dysgu proffesiynol ar agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru ac wedi cydweithio ag ysgolion eraill drwy bwyllgor clwstwr lleol (sy’n cynnwys ysgolion bwydo cynradd) i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y clwstwr. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol rheolaidd gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol er mwyn datblygu'r cwricwlwm.

**Beth sydd wedi gweithio'n dda?** Mae canolbwyntio ar addysgeg wedi gweithio'n dda oherwydd ei fod wedi rhoi sylfaen gref i ymarferwyr ar gyfer gweithgaredd dylunio a threialu. Mae uwch arweinwyr yn hyderus bod ymarferwyr yn deall beth sy’n gwneud ‘gwers dda’ a bod hyn yn rhoi hyder i'r staff roi cynnig ar ddulliau newydd. Ystyriwyd hefyd bod gweithio mewn grwpiau bach a rhaeadru gwybodaeth i eraill drwy arweinwyr Maes wedi gweithio'n dda. Roedd peth o'r gwaith dylunio a threialu wedi bod yn llai llwyddiannus, gyda diffyg 'cynnyrch terfynol' o rai trafodaethau. Fodd bynnag, teimlai uwch arweinwyr fod y trafodaethau wedi bod yn ddefnyddiol o hyd o ran darparu pwyntiau dysgu defnyddiol, er enghraifft bod angen i uwch arweinwyr ddarparu templedi mwy rhagnodol ar gyfer cynllunio rhai gweithgareddau.

Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr yn teimlo bod sicrhau bod y cwricwlwm yn gydlynol ar draws y Meysydd ac yn cwmpasu holl elfennau angenrheidiol y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sicrhau bod y cynnwys yn briodol o eang a dwfn, yn parhau i fod yn her. Roedd un uwch arweinydd yn teimlo hynny a bod staff yn brin o brofiad ac amser i 'gamu'n ôl ac adolygu' y cwricwlwm. Teimlai uwch arweinwyr hefyd fod y camau cynnydd yn amwys a bod diffyg eglurder ynghylch trefniadau ar gyfer asesu cynnydd dysgwyr.

**Barn ynghylch y wybodaeth a'r canllawiau**

4.22 Roedd gan y rhai a gyfwelwyd farn gymysg ynghylch y **wybodaeth a'r canllawiau** yr oeddent wedi eu defnyddio yn ymwneud â'r diwygiadau i'r cwricwlwm. Mynegodd rhai farn gadarnhaol ynghylch y canllawiau yr oeddent wedi eu defnyddio. Teimlai llawer fod swm y wybodaeth a gyhoeddwyd yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol, a dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru i ddatblygu eu deunyddiau eu hunain, gan eu bod yn teimlo y byddai'r rheini yn fwy hygyrch i'w hathrawon. Dywedodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd eu bod wedi datblygu a defnyddio'r mathau hyn o ddeunyddiau yn ystod eu sesiynau dysgu proffesiynol mewnol.

4.23 Teimlai rhai fod y canllawiau cenedlaethol yn rhoi digon o fanylion am y prosesau y dylent eu dilyn o ran ymgysylltu a datblygu dealltwriaeth o'r diwygiadau. Roedd rhai yn teimlo bod **angen mwy o fanylion ymarferol am y broses o ddylunio'r cwricwlwm** ei hun yn y canllawiau, yn ogystal ag yn y gweithgaredd dysgu proffesiynol a ddarperir drwy bartneriaid allanol.

> 'Os ydych chi'n dilyn y canllawiau, mae llawer o wybodaeth am ymgysylltu. Rydych chi'n dilyn y broses ac yn ymgysylltu â'ch rhanddeiliaid, yn deall y cyd-destun lleol, y darlun cenedlaethol, yn ymgysylltu â'ch clwstwr lleol. Rydych chi'n gwneud hynny i gyd ac wedyn... nawr ewch ati i ddylunio'ch cwricwlwm!' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

> 'Ni chafwyd unrhyw weithgaredd ymarferol. Mae wedi canolbwyntio mwy ar 'ymwybyddiaeth' yn hytrach na newid mewn ymarfer'. Ymarferydd, Uned Cyfeirio Disgyblion

4.24 Roedd llawer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr a gyfwelwyd yn teimlo **nad oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth gan ysgolion arloesi** i gynorthwyo eu dealltwriaeth o'r newidiadau i'r cwricwlwm. Roedd rhai yn teimlo eu bod ddwy neu dair blynedd ar ei hôl hi o gymharu â'r ysgolion hynny a oedd wedi cael eu trwytho yn y broses ddiwygio am gyfnod hwy ac yn teimlo y byddai'n werthfawr cael mwy o wybodaeth am yr hyn yr oedd yr ysgolion hyn wedi'i ddysgu o'u taith hyd yn hyn.

> 'Cafodd ysgolion eu dewis i fod yn arloeswyr oherwydd eu bod yn arwain y sector ond bellach mae'r bwlch yn teimlo'n fwy eang gan fod yr ysgolion nad oeddent yn gwneud cystal ymhellach ar ei hôl hi o ran eu gwaith cynllunio a pharatoi.' Ymarferydd ysgol uwchradd.

> 'Rwy'n deall y fagl o gael enghreifftiau a dydyn nhw ddim am inni gopïo gweithgaredd yr Ysgolion Arloesi, ond un o'r pethau sy'n hollbwysig yw gwybod beth sydd heb weithio yn yr ysgolion hyn. Dydyn nhw ddim wedi darparu cymaint o wybodaeth ag y bydden ni wedi'i hoffi.' Ymarferydd ysgol uwchradd.

**Y ddealltwriaeth o'r newidiadau i'r cwricwlwm**

4.25 At ei gilydd, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd eu bod yn deall yr hyn yr oedd yn ofynnol iddyn nhw a'u hysgol ei wneud i baratoi ar gyfer y newidiadau i'r cwricwlwm. Fodd bynnag, dywedodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd nad oeddent wedi llwyr werthfawrogi maint y dasg wrth ddechrau ar y broses. O ganlyniad, dywedodd rhai, **wrth i'w dealltwriaeth o'r newidiadau i'r cwricwlwm gynyddu, bod maint yr her yn fwy brawychus**.

> 'Pan wnes i gwblhau'r arolwg, roeddwn gen i nod i'w gyflawni. Roeddwn i wir yn barod am y diwygiadau! Roeddwn i wedi dechrau ar y broses ddylunio. Rwyf wedi dod yn fwy ymwybodol o faint y diwygiadau ochr yn ochr â datblygiadau eraill. Ond nawr bod cymaint o bethau eraill yn digwydd gyda thrawsnewid ADY - gan gynnwys gofynion cyfreithiol, mae'n teimlo'n llethol.' Ymarferydd, ysgol gynradd

> 'Rwy'n teimlo ein bod wedi mynd drwy gamau eraill yn hapus ac yn hyderus. [Nawr] mae'n ymddangos ymhellach o'n gafael nag erioed mewn rhai ffyrdd. Wn i ddim beth arall allwn ni ei wneud heblaw rhoi cynnig arni. Mae angen i'r gwerthuso fod yn gryf iawn yn hytrach na gwybod ei fod yn gywir yn syth bin oherwydd fydd ei bydd yn 'gywir' fydd e?' Ymarferydd, ysgol gynradd

4.26 Roedd ymarferwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn tueddu i fod yn llai hyderus nag uwch arweinwyr o ran eu dealltwriaeth o'r newidiadau i'r cwricwlwm ac roeddent yn fwy tebygol o fod yn bryderus neu'n ansicr ynghylch agweddau ar y diwygiadau.

4.27 Dywedodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod lefel y wybodaeth am y newidiadau i'r cwricwlwm yn amrywio ymhlith ymarferwyr yn eu hysgol, yn dibynnu ar faint o drafodaeth a geir, a natur yr arweinyddiaeth, o fewn adrannau. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod sicrhau cyfleoedd rheolaidd i drafod a chydweithio ar agweddau penodol ar ddiwygio'r cwricwlwm ar lefel ysgol a maes/adran/cyfadran yn bwysig i ddatblygu dealltwriaeth pob ymarferydd. Soniodd y rhai a gyfwelwyd yn aml fod pwysau amser yn rhwystr i ddarparu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth reolaidd, cydweithio ac adborth, a bod y rhain wedi gwaethygu yn ystod y pandemig, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

4.28 Dywedodd rhai mai un o'r heriau a wynebwyd ganddynt oedd deall 'ehangder a'r dyfnder' y gofynion o ran cynnwys cwricwlwm eu hysgol. Roedd rhai yn ansicr sut i gydbwyso'r rhyddid i ddewis eu cynnwys eu hunain ag agweddau gorfodol ar y cwricwlwm.

4.29 Mynegodd y rhan fwyaf o’r rhai a gyfwelwyd gefnogaeth i egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ac ymrwymiad i system lle mae cynnydd wedi’i wreiddio mewn addysgu a dysgu o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, dywedwyd yn gyson eu bod yn aros am ragor o wybodaeth a chymorth cyn llunio cynlluniau asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr.

> 'Asesu yw'r eliffant yn yr ystafell - rydych chi'n datblygu cynnwys arbrofol gwych ond sut mae mesur lle mae'r plant wedi cyrraedd? Y pryder i ni yw y gall rhai ysgolion fforddio mentro a gwneud rhai camgymeriadau ond bydd ganddyn nhw dal blant cytbwys sy'n gwneud yn dda mewn arholiadau TGAU. Mewn ysgol fel ein hysgol ni sydd â lefelau uwch o amddifadedd, mae mwy o risg ac mae'n rhaid i ni wneud pethau'n iawn o'r cychwyn cyntaf.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

> 'Roedd llawer ynglŷn â'r drefn asesu nad oeddwn i'n cytuno ag ef o'r blaen ond allwn ni ddim cael dim byd. Aros ydyn ni ar hyn o bryd.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

4.30 Teimlai rhai ei bod yn anodd i staff llai profiadol ddatblygu dealltwriaeth o ddulliau asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr. Esboniodd y rhain fod hyn oherwydd bod gan yr ymarferwyr hyn lai o brofiad o arsylwi ar ddilyniant dysgwyr dros amser, ac felly yn ei chael hi'n anos datblygu eu dulliau eu hunain o asesu cynnydd dysgwyr.

> 'Mae'n anodd iawn i staff newydd ddatblygu gweledigaeth a meddwl am y daith honno, heb y profiad hwnnw o addysgu dysgwyr a'u gweld yn symud ymlaen drwy'r ysgol. Fel athrawon, rydyn ni wedi arfer cael rhywun yn dweud wrthym beth i'w wneud. Sut ydych chi'n 'gweld' y daith?' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

4.31 Nododd rhai mai prin yw dealltwriaeth rhieni a llywodraethwyr. Pwysleisiodd ambell un a gyfwelwyd ei bod yn her cynnwys rhieni mewn prosesau'n ymwneud â newid y cwricwlwm fel cael adborth ar weledigaeth yr ysgol, ymatebion i arolygon a recriwtio i gynghorau rhieni.

> 'Fe wnaethon ni gyflwyno ein cynlluniau gwaith i'r llywodraethwyr ac roedd eu hwynebau nhw'n dweud 'waw – beth sy'n mynd ymlaen?'. Mae'r cyfan yn newydd iddyn nhw.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

**Datblygu gweledigaeth eu hysgol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru**

4.32 Nododd bron pawb a gyfwelwyd fod eu hysgol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm eu hunain. Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd sut yr oeddent wedi datblygu eu gweledigaeth gan gynnwys, lle y bo’n berthnasol, dysgwyr, rhieni a’r gymuned ehangach. Y dulliau mwyaf cyffredin a grybwyllwyd gan ysgolion oedd:

- Cynnwys staff a dysgwyr yn y broses o **ddatblygu neu ailedrych ar arwyddair, gwerthoedd neu weledigaeth bresennol eu hysgol**, a cheisio ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru (y pedwar diben yn nodweddiadol) ynddo;
    - Anogodd rhai ysgolion eu staff i gydweithio ar ddogfen a rennir yn amlinellu gweledigaeth newydd eu hysgol;
    - Roedd rhai wedi datblygu rhestr fer o 'sloganau' a datganiadau arwyddair posibl ac wedi cynnal arolwg o staff a rhieni i helpu i ddewis rhai newydd;
    - Roedd rhai wedi ailstrwythuro eu cynghorau ysgol i archwilio a dehongli un neu fwy o'r pedwar diben;
    - Mewn rhai ysgolion, teimlai'r rhai a gyfwelwyd fod y pedwar diben eisoes yn cyd-fynd yn dda ag ethos eu hysgol.
- Ysgolion cynradd yn **datblygu a dylunio cymeriadau i ymgorffori'r pedwar diben yn weledol** ac, mewn rhai achosion, yn defnyddio'r rhain fel 'llaw-fer' i gyfeirio at y pedwar diben yn yr ysgol;
    - Roedd rhai ysgolion wedi datblygu arddangosfeydd neu fyrddau gwybodaeth yn cyflwyno'r wybodaeth hon i hyrwyddo dehongliad cyffredin o'r pedwar diben ymhlith dysgwyr a staff;

'Mae'r disgyblion wedi creu 'afatarau' ar gyfer y pedwar diben craidd sy'n berthnasol pryd bynnag y cyfeirir at y pedwar diben craidd mewn gwersi… …Mae'r disgyblion wedi defnyddio'r afatarau i helpu i ddylunio prosbectws ysgol sy'n gyfeillgar i ddisgyblion.' Uwch arweinydd, ysgol arbennig

- Dosbarthu gwybodaeth am eu gweledigaeth mewn fformatau amrywiol a **chasglu barn dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr** drwy holiaduron a dulliau mwy ansoddol;

- Er enghraifft, roedd un ysgol gynradd wedi casglu sylwadau ac awgrymiadau gan ei staff a'i llywodraethwyr a oedd wedi ei helpu i aralleirio gweledigaeth yr ysgol.

4.33 Pwysleisiodd y rhai a gyfwelwyd rôl casglu data llais y dysgwr wrth ddatblygu gweledigaeth eu hysgol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Roedd rhai ysgolion wedi cynnwys eu dysgwyr mewn gweithgareddau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r pedwar diben; roedd hyn yn cynnwys trafodaethau dosbarth, datblygu 'mapiau meddwl' a chreu cymeriadau. Roedd ambell ysgol wedi sefydlu grwpiau cyngor ysgol newydd yn ymwneud â Meysydd y cwricwlwm (e.e. Iechyd a Lles).

**Sut y bydd y cwricwlwm newydd yn wahanol**

4.34 Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd sut yr oedden nhw'n meddwl y byddai cwricwlwm newydd eu hysgol yn teimlo'n wahanol o safbwynt y dysgwr. Yr ymatebion a godwyd amlaf oedd y byddai'r cwricwlwm newydd:

- Yn darparu mwy o **addysg drwy brofiad**: roedd y rhai a gyfwelwyd yn credu y byddai eu cwricwlwm yn rhoi mwy o brofiadau dysgu ymarferol i ddysgwyr a fyddai'n cynnwys mwy o bartneriaid allanol (e.e. cyflogwyr, rhieni) a dysgu yn yr awyr agored a oedd yn gysylltiedig â'u cyd-destun lleol;
- Yn fwy **cydlynol:** byddai cysylltiadau rhwng Meysydd a phynciau yn fwy pendant ac amlwg i ddysgwyr;
    - Mewn llawer o ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd, teimlai'r rhai a gyfwelwyd y byddai cynllunio mwy integredig yn yr ysgol yn arwain at fwy o gydlyniaeth;
- Yn fwy **pleserus, cyffrous a deniadol** i ddysgwyr: teimlai'r rhai a gyfwelwyd y byddai mwy o ddysgu drwy brofiad yn arwain at fwy o fwynhad i ddysgwyr;
    - Teimlai rhai hefyd y byddai hyn yn codi wrth i ddysgwyr gael eu haddysgu gan staff a chanddynt fwy o frwdfrydedd ac egni.

'Rwy'n teimlo'n gyffrous iawn. Rwyf wedi mynd heibio i oedran ymddeol ac rwy'n dal ati oherwydd dyma'r tro cyntaf yn fy ngyrfa 30 mlynedd i unrhyw un ofyn beth yw pwrpas addysg? Mae bob amser wedi ymwneud ag addysgu'r cwricwlwm cenedlaethol, paratoi plant ar gyfer gwaith, a gallai rhywfaint o hynny fod yn wir, ond erbyn hyn rydym yn gwybod sut rydym am i bobl fod ar ddiwedd y broses

addysg ac felly dyna’r trywydd rydyn ni'n ei ddilyn gyda'n gwaith cynllunio – sut olwg sydd arnyn nhw? Beth fydden ni'n ei gyflwyno i sicrhau eu bod yn cyrraedd y nod?' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

- Yn **canolbwyntio mwy ar y dysgwr**: roedd y ffocws ar y pedwar diben a'r syniad o osod y rhain wrth wraidd y cwricwlwm wedi ennyn brwdfrydedd y rhai a gyfwelwyd;
    - Disgrifiodd ambell ymatebydd o ysgolion cynradd fod eu cwricwlwm ar gyfer plant 7-11 oed yn cael ei ‘arwain yn fwy gan y plentyn’ ac roedd yn credu y byddai’n teimlo’n debycach i gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen;

‘Mae’n newid anferthol yn y ffordd o ddysgu, rhoi’r disgybl yn ganolog i bopeth er mwyn helpu creu plentyn cyflawn. A rhoi'r mwynhad nôl i mewn i ddysgu.' Ymarferydd, ysgol gynradd

'Dadansoddi pethau a chydweithio yw'r peth allweddol. Yn y Cyfnod Sylfaen rydyn ni wedi arfer canolbwyntio ar les nawr, felly rydyn ni wedi gweithio gyda Chyfnod Allweddol 2 i ddatblygu hyn ar gyfer y grŵp oedran hwnnw’ Ymarferydd, ysgol gynradd

- Yn ennyn mwy o **gyfranogiad gan rieni**: disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd syniadau amrywiol ar gyfer cynnwys rhieni yn y broses o newid y cwricwlwm (e.e. arolygon) ac ar gyfer datblygu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm ysgol newydd (e.e. dyddiau/nosweithiau dathlu).

4.35 Mae’r astudiaeth achos ganlynol yn rhoi o sut y mae un ysgol wedi cynnwys rhieni a’r gymuned yn ei pharatoadau[9].

[9] Mae'r astudiaeth achos hon yn ddarlun o'r mathau o ddulliau a grybwyllwyd yn ystod y cyfweliadau ac nid yw'n golygu bod y dull penodol hwn yn cael ei gymeradwyo.

**Astudiaeth Achos 3: Ysgol gynradd**
**Ymgysylltu â'r gymuned a rhieni**

**Trosolwg o gynnydd yr ysgol o ran ei pharatoadau**

Mae’r ysgol wedi bod yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ers tair blynedd, gan gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau i gefnogi hyn:

| | |
|---|---|
| Cyfleoedd i staff ddatblygu drwy hyfforddiant a secondiadau | Cysylltu ag ysgolion eraill o fewn y consortia |
| Ymgorffori addysgu tîm ar draws Cyfnod Allweddol 2 | Mynychu hyfforddiant consortia |
| Rhoi ymgysylltu â rhieni a rhanddeiliaid wrth wraidd y cwricwlwm | Modelu addysgeg yn helaeth ar gyfer staff |
| Datblygu dysgu cyfunol | Llais y disgybl yn nodwedd allweddol |

Dechreuodd yr ysgol roi’r dull newydd ar waith yng Nghyfnod Allweddol 2, gan sicrhau bod y **pedwar diben wrth wraidd yr holl addysgeg.** Rhoddwyd **dull addysgu tîm** newydd ar waith hefyd. Roedd yr ysgol a’r staff yn bryderus ar y dechrau, gan fod y dull yn newydd iddynt. Fodd bynnag, ar ôl gweld bod yr addysgeg yn gweithio, maen nhw nawr yn **frwdfrydig** i'w ddefnyddio yn eu dosbarthiadau. Mae gan yr ysgol bolisi drws agored ac mae staff yn arsylwi ei gilydd yn gweithredu’r dulliau newydd.

**Y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgol**

Mae sicrhau bod rhanddeiliaid a rhieni yn ymwybodol o’r pedwar diben yn cael ei ystyried yn weithgarwch allweddol. Disgrifiwyd y llywodraethwyr fel rhai a oedd yn gefnogol iawn i’r dull newydd o sicrhau bod yr addysgeg yn effeithiol yn y lle cyntaf, ac y byddai gweledigaeth yr ysgol yn cael ei datblygu yn seiliedig ar hynny.

**Beth sydd wedi gweithio'n dda?** Mae rhieni wedi cael eu cynnwys drwy gyfres o heriau i'r teulu a'r cartref. Mae **cylchlythyr** yn herio teuluoedd i asesu pa mor foesegol a gwybodus ydyn nhw fel teulu drwy fecanwaith sgorio i drafod beth sy’n gwneud plentyn moesegol ac i **osod targedau** o fewn y cartref. Gall plant gwblhau'r dasg hon yn ystod amser darllen gydag aelod o staff os nad ydynt wedi gallu ei chwblhau gartref. Mae **arbenigedd rhieni** hefyd yn cyfrannu at yr addysgu a'r gweithgareddau allgyrsiol e.e. sesiynau ffitrwydd neu feirniadu yn yr Eisteddfod. Mae disgyblion yn ystyried sut y gallant godi **ymwybyddiaeth y gymuned** o'i 'Chynefin' drwy dynnu sylw'r gymuned at yr hyn sy'n ei gwneud yn unigryw e.e. arddangosfeydd y tu allan i'r ysgol.

**Beth y gellid bod wedi'i wneud yn well?** Mwy o gyfathrebu gyda rhieni o’r cychwyn cyntaf i leddfu unrhyw bryderon am y dulliau newydd o weithio mewn gwersi.

**Beth yw'r cam nesaf?** Wrth ddylunio’r trefniadau asesu, bydd yr ysgol yn ceisio ymgysylltu â rhieni. Fodd bynnag, mae angen gofal i sicrhau bod asesiadau'n cael eu dylunio'n ofalus i gyd-fynd â gofynion y plant a'r cwricwlwm newydd.

# 5. Dylunio, cynllunio a threialu

5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau'r rhai a gyfwelwyd o ddylunio, cynllunio a threialu'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn eu hysgolion.

5.2 Cawsant eu holi am nifer o faterion yn ymwneud â dylunio, cynllunio a threialu'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau ynghylch:

- pa gamau yr oeddent wedi'u cymryd fel rhan o'r broses o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn eu hysgol;
- yr hyn a oedd yn gweithio'n dda wrth ddylunio, cynllunio a threialu'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn eu hysgol;
- y rhwystrau o ran dylunio, cynllunio a threialu'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn eu hysgol;

### Y camau a gymerwyd i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm newydd

5.3 Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd amrywiaeth o gamau yr oedd eu hysgol wedi'u cymryd i ddylunio a chynllunio ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Nodir y mathau o weithgareddau a grybwyllwyd amlaf gan y rhai a gyfwelwyd isod.

5.4 Dywedodd llawer o ymarferwyr eu bod yn gwneud gwaith **ymchwil** annibynnol i ddulliau addysgeg newydd ac yn treialu hyn yn yr ystafell ddosbarth:

- Mewn rhai achosion, dilynwyd hyn gan athrawon yn cynnig adborth ar yr hyn yr oeddent wedi ymchwilio iddo a sut y'i gweithredwyd yn yr ystafell ddosbarth i aelodau eraill o'r staff;
- Nododd un ymarferydd fod y trafodaethau adborth hyn, yn ei ysgol, yn cael eu cynnal mewn modd 'anfeirniadol', gan roi pwyslais ar fyfyrio ac ymholi.

5.5 Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn cymryd rhan mewn **gweithgaredd ar y cyd** o fewn a rhwng ysgolion i gydlynu prosesau cynllunio a chymryd rhan mewn dysgu ar y cyd. Mewn rhai achosion, mynegwyd pwysigrwydd proses ddylunio a chynllunio ar y cyd gan yr uwch dîm arwain.

- Un enghraifft o broses gynllunio ar y cyd oedd **diwrnodau HMS ar y cyd** rhwng ysgolion o fewn clwstwr i sicrhau dilyniant i ddysgwyr rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd;
- Disgrifiodd ambell un sut yr oedd **cynllunio o fewn yr ysgol yn fwy cydlynol erbyn hyn** ac wedi arwain at gydlynu'r addysgu ar draws yr ysgol yn hytrach nag fesul grŵp blwyddyn. Er enghraifft, soniodd un ymarferydd am 'brynhawniau pwnc' lle roedd yr ysgol gyfan yn dysgu am bwnc penodol;
- Nodwyd er bod rhai ysgolion yn defnyddio trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion – er enghraifft, drwy rwydweithiau rhanbarthol presennol – roedd nifer bach o ysgolion wedi dewis **cydweithio drwy gysylltiadau mwy anffurfiol.**
    - Disgrifiodd un cyfwelai hyn fel un sydd â’r fantais o allu cynllunio ar y cyd ag ysgolion a oedd yn rhannu’r un ethos a gweledigaeth:

‘Da ni wedi mynd ati’n fwriadol i gydweithio ag ysgolion sydd â'r un ffordd o feddwl â ni. Y syniad yn yr awdurdod lleol oedd i ni weithio gyda grŵp penodol o ysgolion, ond doedden ni ddim yn awyddus gan ein bod yn teimlo bod yn rhaid i ni gael yr un math o uchelgais a diwylliant. Mi wnaethom ni sefydlu’n rhwydwaith drwy gysylltiadau anffurfiol – er mae’r consortiwm yn hapus ein bod wedi ei greu', Arweinydd uwchradd.

5.6 Nododd llawer o uwch arweinwyr bod **strwythurau staffio ysgolion wedi'u had-drefnu** i adlewyrchu gweledigaeth a chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ac i ganiatáu dylunio a chynllunio mwy effeithiol;

- Yn fwyaf aml, roedd hyn yn golygu penodi arweinwyr Maes o fewn ysgolion ac roedd yn aml yn mynd law yn llaw â symud i ffwrdd o rolau 'pennaeth adran' traddodiadol. Fodd bynnag, roedd rhai ysgolion wedi dewis penodi arweinwyr Maes *yn ogystal â* chynnal rolau staff presennol gyda'r nod o gael arweinwyr Maes yn gweithredu fel hwyluswyr ar gyfer cynllunio o fewn adrannau a rhwng adrannau;
    - Nododd un o'r rhai a gyfwelwyd yn benodol bwysigrwydd arweinwyr Maes yn ymgymryd â **swyddogaeth gynghori a chefnogi** yn hytrach na dweud wrth ymarferwyr beth i'w wneud.

- Roedd un ysgol **wedi symud staff ar draws gwahanol grwpiau blwyddyn** o fewn yr ysgol gynradd. Disgrifiwyd hyn fel rhywbeth pwysig i'r staff o ran eu dysgu ac i feithrin gwerthfawrogiad o rolau ei gilydd. Fe'i disgrifiwyd fel un sy'n pwysleisio rôl staff fel 'ymarferwyr cynradd' sydd angen dealltwriaeth o'r hyn y mae dysgwyr yn ei wneud ar wahanol gamau o'u taith.

5.7 Soniodd y rhan fwyaf a'r rhai a gyfwelwyd eu bod wedi **nodi cysylltiadau dilys rhwng gwahanol Feysydd** yn eu proses o ddylunio a chynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Pwysleisiodd rhai fantais sefydlu'r cysylltiadau hyn o fewn cyd-destun lleol eu hysgolion, gan nodi bod hyn wedi helpu i ddod ag addysgu traws-Faes yn fyw i ymarferwyr a dysgwyr.

5.8 Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd bod **llais y disgybl wedi dod yn rhan fwy canolog o'r broses ddylunio a chynllunio.** Roedd hyn yn cynnwys dwy brif farn: bod dysgwyr ac athrawon yn gweithio *gyda'i gilydd;* a bod rhoi mwy o bwyslais ar lais y disgybl yn rhoi mwy o berchnogaeth a rheolaeth i'r dysgwr tra bod rôl yr ymarferydd wedi dod yn fwy o rôl hwylusydd. Nododd ambell un, er bod llais y disgybl wedi dod yn bwysicach, nad yw dysgwyr yn *arwain* y broses ddylunio a chynllunio ond yn hytrach yn ei *hysbysu*.

5.9 Nododd ambell un fod ei ysgol wedi gwneud ymdrechion ar y cyd i ymgorffori mwy o **ddysgu drwy brofiad a dysgu yn yr awyr agored.** Mewn rhai achosion, roedd y broses ddylunio yn cynnwys gwariant ar adnoddau a deunyddiau i hwyluso dysgu drwy brofiad.

- Er enghraifft, roedd un ysgol wedi cynllunio ar gyfer mwy o ddysgu drwy brofiad a dysgu yn yr awyr agored drwy adeiladu adnoddau newydd gan gynnwys: pyllau dŵr yn yr awyr agored, twneli polythen, cwch gwenyn, gwelyau planhigion wedi'u codi, ac ystafell ddosbarth yn yr awyr agored;
- Roedd eraill hefyd yn cydnabod pwysigrwydd dysgu drwy brofiad ond mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft drwy wahodd ymwelwyr i’r ysgol bob dydd Gwener i roi sgyrsiau am eu swyddi/gyrfaoedd (rhieni ac unigolion o’r gymuned).

5.10 Disgrifiodd ambell un broses lle roedd y ddarpariaeth bresennol yn cael ei harchwilio a'i harfarnu yng ngoleuni ethos a gofynion cyffredinol y cwricwlwm

newydd. Er enghraifft, disgrifiodd ambell un ei fod yn gwneud hyn i sicrhau bod y 12 egwyddor addysgeg yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer. Disgrifiodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd y broses o sicrhau bod unrhyw 'fylchau' o ran cyflwyno'r cwricwlwm yn cael sylw (e.e. sicrhau ehangder a dyfnder digonol o ran y Meysydd; olrhain cwmpas y disgrifiadau dysgu dros y flwyddyn). Ymhlith y rhai a wnaeth y sylwadau hyn, soniodd rhai sut yr ystyriwyd bod y dull cynyddrannol ac ymaddasol hwn yn ffordd haws o wneud newidiadau i'r cwricwlwm yn y dyfodol yn hytrach na gwneud newidiadau mawr. Dywedodd lleiafrif eu bod wedi **ymgysylltu â rhieni** wrth ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm newydd. Dywedodd llawer o ysgolion eu bod wedi'i chael hi'n anodd cael digon o gysylltiad neu gysylltiad hir â rhieni. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau arloesol o ymdrechion i ymgysylltu â rhieni, megis drwy 'apiau' ysgol neu drwy greu a rhannu fideos.

5.11 Nododd ambell un ei fod wedi mabwysiadu dull neu feddylfryd newydd wrth gynllunio a dylunio'r cwricwlwm newydd. Disgrifiodd y sylwadau hyn ddull gweithredu yn hytrach na gweithgareddau penodol:

- Er enghraifft, dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd fod hyn yn sicrhau bod yr holl waith cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd yn cynnwys gwersi a phrofiadau **real a pherthnasol** i ddysgwyr, neu fod y dysgu yn fwy **pwrpasol;**
- Enghraifft arall oedd newid y cysyniad o dderbynyddion y gwaith cynllunio a dylunio: yn hytrach na dim ond trosglwyddo gwybodaeth i ddysgwyr, arloesi i gynnwys dysgwyr yn fwy a newid rôl yr ymarferydd i fod yn hwylusydd.

‘Mae gennym y rhyddid i edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn fyd-eang a dweud mai dyma sydd angen i'r plant ei wybod – mae'n un o'n pedwar diben *ni*'.
Uwch arweinydd, ysgol gynradd

**Myfyrdodau cadarnhaol ar gynllunio a dylunio'r cwricwlwm newydd**

5.12 Mae'r adran hon yn amlinellu'r agweddau ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm yr ystyriwyd eu bod yn mynd rhagddynt yn dda. Caiff y pwyntiau a godwyd gan y rhai a gyfwelwyd eu nodi isod.

5.13 Nododd lleiafrif sylweddol fod canlyniadau llwyddiannus yn cyd-fynd ag ymdeimlad o **berchnogaeth gan staff** o'r newidiadau i'r Cwricwlwm i Gymru. Adroddwyd hyn

mewn achosion lle y nodwyd bod y broses gynllunio yn broses gydweithredol a wnaed ar y cyd. Nodwyd hefyd bod sicrhau tryloywder ynghylch y cynnydd a wneir gan yr ysgol a'r hyn sy'n gweithio neu ddim yn gweithio yn arbennig o ddefnyddiol. Nododd rhai yn benodol fod morâl ac uchelgais ar ei uchaf pan fyddai gan ymarferwyr ymdeimlad o berchnogaeth dros gynllunio a dylunio a rhyddid i deilwra, yn hytrach na rhywun yn dweud wrthynt beth i'w wneud. Mewn ysgolion lle y neilltuwyd y gwaith cynllunio i'r uwch dîm arwain (yn fwyaf nodedig mewn ysgolion uwchradd) dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod hyn yn amharu ar allu'r holl ymarferwyr i gyfrannu at y broses gynllunio a dylunio ac felly'n gallu lladd uchelgais.

5.14 O blith y rhai a wnaeth sylwadau cadarnhaol ar y broses ddylunio a chynllunio yn eu hysgol, ffactor cyffredin iawn oedd **mabwysiadu dull amyneddgar ac ailadroddus tuag at ddiwygio**. Hynny yw, nodwyd bod peidio â rhuthro i weithredu neu ddatblygu newidiadau'r Cwricwlwm i Gymru wedi bod o fudd i'r ysgol. O ran ysgolion a oedd wedi dechrau ystyried newidiadau i'r Cwricwlwm yn gynharach, dywedwyd bod mwy o amser i fyfyrio a threialu ac felly meithrin **sicrwydd** hefyd yn null eu hysgol. Hynny yw, roedd dull pwyllog - mewn rhai achosion - yn caniatáu mwy o arbrofi gyda dulliau addysgeg.

5.15 Roedd nifer o uwch arweinwyr yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd yr oedd canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn ei roi iddynt. Gellir rhannu manteision canfyddedig hyblygrwydd yn dair elfen:

- Roedd ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r **hyblygrwydd o ran yr hyn y gallant ei addysgu** a chanfuwyd bod hyn wedi cynorthwyo'r broses ddylunio a chynllunio, yn enwedig o ran creu cysylltiadau dilys rhwng meysydd dysgu yn hytrach na 'gwasgu' gwersi i mewn oherwydd eu bod wedi'u pennu yn y cwricwlwm;
- Dywedodd ambell uwch arweinwyr ei fod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod mwy o hyblygrwydd nawr o ran **amserlennu**. Er enghraifft, yn hytrach na gorfod cyflwyno nifer penodol o oriau o bwnc penodol bob wythnos, dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod eu hamserlenni newydd yn llai caeth gan eu bod yn gallu ymgorffori agweddau ar ddysgu mewn gwahanol ffyrdd;

- Yn drydydd, nododd sawl un ei werthfawrogiad o'r **dull cynllunio hyblyg ac agored** o fewn eu hysgol. Mae hyn yn cynnwys rhoi lle i ymarferwyr dreialu, gwneud camgymeriadau, a dysgu o'r camgymeriadau hyn.

'Bod yn agored ac yn onest a chael amser i roi cynnig ar bethau, ac i bethau beidio â bod yn arbennig o dda neu gywir ond gallu dysgu o hynny'. Uwch arweinydd, ysgol gynradd

5.16 Nododd rhai mai sgil-gynnyrch cadarnhaol yr elfen llais y disgybl o’r broses dylunio a chynllunio yw bod y **dysgwyr yn ymgysylltu llawer mwy** â'r broses o feddwl am wybodaeth, sgiliau a phrofiad. Dywedodd rhai ymarferwyr fod dysgwyr yn dangos mwy o flaengaredd o ran eu dysgu a chyfeiriad eu dysgu.

5.17 Roedd rhai yn teimlo bod **ymgorffori’r cyd-destun lleol** yn eu gwaith cynllunio ac yng nghynnwys y cwricwlwm yn cynnig y potensial i ennyn brwdfrydedd dysgwyr a'u helpu i weld mwy o berthnasedd ac arwyddocâd i'w dysgu. Dywedwyd bod yr agwedd hon yn caniatáu proses fwy organig o ddylunio'r cwricwlwm. Roedd rhai o’r dulliau arloesol a grybwyllwyd yn cynnwys ymchwilio i hanes yr ysgol ei hun neu ddefnyddio grwpiau hanes lleol ar y cyfryngau cymdeithasol. Nodwyd y rhain fel adnoddau cyfoethog i ysgolion eu defnyddio.

### Y rhwystrau a wynebwyd wrth ddylunio a chynllunio’r cwricwlwm newydd

5.18 Mae’r adran hon yn amlinellu’r rhwystrau a wynebwyd gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr wrth ddylunio a chynllunio eu cwricwlwm newydd. Caiff y pwyntiau a godwyd gan y rhai a gyfwelwyd eu hamlinellu yma.

5.19 Diffyg **amser** oedd y rhwystr mwyaf cyffredin o bell ffordd a chrybwyllwyd hyn gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr fel ei gilydd. Roedd y rhan fwyaf o’r pryderon hyn yn ymwneud â diffyg amser i ymarferwyr gynllunio a dylunio’r cwricwlwm ochr yn ochr â’u hymrwymiadau addysgu, gan arwain at bryderon ynghylch a fyddent yn barod i'w gyflwyno ym mis Medi.

5.20 Dywedodd y rhai a gyfwelwyd **nad oedd ymarferwyr wedi cael digon o amser i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth i ddylunio a chynllunio** oherwydd prinder athrawon cyflenwi. Gwaethygwyd y broblem hon ymhellach mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gan brinder athrawon cyflenwi Cymraeg. Nododd y rhai a gyfwelwyd o **ysgolion llai**

fod cyfyngiadau amser yn effeithio arnynt yn benodol oherwydd bod ganddynt lai o gapasiti staff a bod absenoldeb staff yn cael mwy o effaith arnynt o'r herwydd.

> 'Rydyn ni'n gweithio drwyddo, fesul tipyn. Nid adnoddau yw'r her fawr, ond amser. Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar hyn. Rydym wedi penderfynu bod angen inni drafod y cwricwlwm mewn am yn ail gyfarfod staff, felly bob pythefnos. Mae hyn yn cymryd tan 6.30pm a dydyn ni ddim yn cael ein talu am yr amser hwn.' Ymarferydd, ysgol gynradd

5.21 Nododd llawer o'r rhai a gyfwelwyd mai'r hyn a oedd yn eu hatal rhag gwneud mwy o gynnydd neu fwrw ati'n fwy hyderus gyda'r gwaith dylunio a chynllunio oedd **diffyg sicrwydd.** Yn benodol, awgrymodd ambell un y byddai'n ddefnyddiol cael cysylltiad â rhywun sydd â 'golwg oddi uchod' o'r cynnydd o ran dylunio'r cwricwlwm mewn ysgolion eraill a allai wedyn roi gwybod i ysgolion sut hwyl yr oeddent yn ei chael arni neu a ydyn nhw ar y 'trywydd cywir'. Mewn geiriau eraill, nododd llawer fod diffyg **sicrwydd allanol** - os nad yn rhwystr - yn llesteirio cynnydd.

5.22 Nododd rhai nad oeddent wedi manteisio ar gymaint o **ddysgu proffesiynol** ag y dymunent, yn benodol mewn perthynas â dylunio'r cwricwlwm. I rai ymarferwyr yn arbennig roedd hyn oherwydd nad oeddent yn cael digon o amser o'r ystafell ddosbarth i gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol. Teimlai eraill fod diffyg mynediad at gymorth ymarferol a dysgu gan ysgolion eraill (e.e., Ysgolion Arloesi) wedi effeithio ar eu hyder i ddylunio a threialu eu cwricwlwm newydd.

> 'Mae athrawon da bob amser yn ymgymryd â gweithgaredd dysgu proffesiynol yn ddidaro ond mae angen dull dysgu proffesiynol sy'n fwy cydlynol a gall athrawon sydd wedi cwblhau eu cwrs hyfforddiant athrawon gryn amser yn ôl ei chael hi'n anodd oherwydd efallai nad ydynt yn gwybod ble i ddod o hyd i'r atebion'. Uwch arweinydd, ysgol gynradd

5.23 Mynegodd rhai rwystredigaeth ynghylch **cyfathrebu gwael** o fewn eu hysgol lle roedd **trafodaethau am ddylunio a chynllunio yn cael eu cynnal ar lefel uwch arweinwyr ac nid oeddent yn cael eu lledaenu i'r staff addysgu.** Teimlai'r ymatebwyr hyn, a oedd yn ymarferwyr yn bennaf, fod hyn wedi arwain at ddiffyg gwybodaeth am sut y gall ymarferwyr gyfrannu at ddylunio'r cwricwlwm. Roedd rhai yn cydnabod bod hyn fwy na thebyg i'w briodoli i'r ffaith bod gan uwch arweinwyr fwy o hyblygrwydd i fynychu cyfleoedd dysgu proffesiynol neu gyfleoedd rhwydweithio y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ond roeddent yn dal i deimlo'n rhwystredig ynghylch y ffaith nad oedd gwybodaeth yn gael ei rhannu'n dda.

Codwyd y mater hwn yn amlach mewn ysgolion uwchradd nag mewn ysgolion cynradd.

5.24 Tynnodd y rhai a gyfwelwyd sylw at y ffaith bod nifer o rwystrau yn ymwneud â newid o **bynciau unigol** i **Feysydd**:

- Nododd rhai fod penaethiaid adran weithiau'n amharod i newid i fodel addysgu a chynllunio trawsgwricwlaidd a thrawsbynciol oherwydd eu bod yn 'amddiffynnol' o'u disgyblaeth;
- Soniodd nifer bach am y lefelau gwahanol o gapasiti rhwng adrannau i ddyrannu amser ac adnoddau i gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd.

5.25 Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd at **COVID-19** fel rhwystr sylweddol yn eu proses o gynllunio a dylunio'r cwricwlwm newydd

- Er enghraifft, mae'r pandemig wedi cyfyngu ar allu ysgolion i gydweithio ag ysgolion lleol eraill (e.e., cynllunio neu arsylwi ymarfer arall a rhannu adnoddau);
- Mae COVID-19 yn golygu bod mwy o ofynion ar amser ymarferwyr ac uwch arweinwyr fel ei gilydd, megis sicrhau bod anghenion iechyd a diogelwch yn cael eu diwallu a sicrhau llesiant myfyrwyr, ac yn flaenorol i athrawon ysgolion uwchradd, treulio llawer o amser ar ddyrannu graddau a bennir gan ganolfan;
- Soniodd y rhai a gyfwelwyd hefyd am y ffaith bod absenoldeb staff yn atal cynllunio effeithlon pan fo ysgolion dan bwysau staffio o'r fath.

'Mae creu momentwm yn anodd gyda phopeth arall sy'n digwydd, yn enwedig mewn ysgol fach. Rydych chi'n trefnu cyfarfod i drafod pethau, yn cytuno ar ffordd ymlaen ac yna erbyn y cyfarfod nesaf mae rhywun i ffwrdd o'r gwaith gyda Covid neu'n hunanynysu, felly rydych chi'n colli'r cyfle ac mae amser yn mynd heibio'. Uwch arweinydd, ysgol gynradd

**Gwybodaeth a chanllawiau**

5.26 Roedd ansawdd a swm y wybodaeth a'r canllawiau a roddwyd i ysgolion yn thema amlwg a godwyd gan y rhai a gyfwelwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau am hyn yn ymwneud â'r ffaith bod diffyg gwybodaeth a chanllawiau yn rhwystr a oedd yn llesteirio eu gallu i ddylunio, cynllunio a threialu'r cwricwlwm newydd.

5.27 Y sylw mwyaf cyffredin ynghylch gwybodaeth a chanllawiau oedd bod **llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo yr hoffent weld enghreifftiau o broses ddylunio neu gynllunio lwyddiannus.** Er bod llawer yn dechrau ar eu teithiau dylunio a chynllunio eu hunain, arweiniodd y canfyddiad o ddiffyg deunydd enghreifftiol at danseilio hyder llawer yn eu proses eu hunain.

5.28 Teimlai rhai nad oedd y canllawiau swyddogol yn ddigon manwl i'w helpu'n effeithiol i ddylunio a chynllunio eu cwricwlwm. Er enghraifft, disgrifiodd un o'r rhai a gyfwelwyd ei ddryswch ynghylch yr hyn a oedd yn gyfystyr â 'phrofiad' o fewn dysgu drwy brofiad a pha mor aml y mae angen gwneud cysylltiadau rhwng Meysydd. Er nad oedd y math hwn o sylw yn gyffredin, mae'n dangos, er bod gan ymarferwyr yn gyffredinol ddealltwriaeth dda o ethos y newidiadau i'r cwricwlwm, yn aml nid oes ganddynt wybodaeth am sut i ddylunio a gweithredu'r newidiadau.

5.29 Teimlai nifer bach iawn o'r rhai a gyfwelwyd mai ychydig iawn o gymorth, os o gwbl, a gafodd eu hysgol gyda'r newidiadau i'r cwricwlwm. Nododd un ysgol nad oedd wedi gwneud 'dim byd amlwg' o ran cynllunio oherwydd mai ychydig iawn o wybodaeth a gafodd a'u bod yn cynnal y rhan fwyaf o weithgaredd dysgu proffesiynol 'ar eu liwt eu hunain'.

5.30 Cyfeiriodd ambell un at brinder gwybodaeth benodol ar gyfer elfennau trawsbynciol y Cwricwlwm i Gymru, megis Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau'n Gysylltiedig â Byd Gwaith ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Nododd rhai fod yr agweddau hyn ar y Cwricwlwm i Gymru yn anghyfarwydd iawn i ysgolion cynradd. Roeddent yn teimlo bod angen mwy o adnoddau arnynt a gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd ymgorffori'r agweddau trawsgwricwlaidd hyn. Dywedodd nifer bach o'r rhai a gyfwelwyd eu bod yn aros i'r canllawiau perthnasol gael eu rhyddhau cyn dechrau ar y gwaith o ddylunio a chynllunio'r themâu trawsbynciol megis Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau'n Gysylltiedig â Byd Gwaith.

### Asesiad i gefnogi cynnydd dysgwyr

5.31 Gan adleisio sylwadau'r rhai a gyfwelwyd am ddiffyg dealltwriaeth glir o sut y bydd asesiadau'n gweithio yn niwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru, gwnaeth llawer sylwadau

hefyd ar yr anhawster o ymgorffori trefniadau asesu fel rhan o'u gwaith dylunio a chynllunio. Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif bwyntiau a godwyd ynghylch asesu.

5.32 Er bod rhai wedi bod yn frwdfrydig ynghylch y camau cynnydd, mynegodd eraill ddryswch o ran sut i'w defnyddio – yn enwedig yn absenoldeb cyd-destun asesu ehangach ar gyfer diwygio'r trefniadau asesu.

> 'Gyda'r camau cynnydd, yr hyn sy'n peri pryder yw ein bod ni'n meddwl yn nhermau 'Rydw i'n mynd i neidio oddi ar glogwyn a gweld beth sy'n digwydd'. A dyma sy'n anodd ei egluro i ddisgyblion a rhieni os ydyn nhw'n gofyn sut maen nhw'n mynd o un cam i'r llall' – Ymarferydd, ysgol uwchradd

5.33 Roedd ambell un yn ymwybodol o'r angen i beidio ag ymdrin â chamau cynnydd fel rhestr 'ticio blychau'. Er enghraifft, disgrifiodd un o'r rhai a gyfwelwyd, er nad oedd ei ysgol wedi rhoi camau dilyniant ar waith yn llwyddiannus eto, y byddai'n gweithredu'r egwyddor addysgeg yn ymwneud â phwysigrwydd cynnydd ac yn cyfleu hynny i ddysgwyr, gan gydnabod nad yw bob amser yn broses linol. Teimlwyd bod hon yn neges effeithiol i'w chyfleu cyn egluro'n union sut y bydd yr asesu'n gweithio.

5.34 Nododd ambell un yr anhawster o fabwysiadu dull hyblyg o addysgu a dylunio cwricwlwm newydd pan fo system ragnodol y cymwysterau cyfredol megis TGAU yn dal i fod ar waith. Heb fwy o wybodaeth am sut y bydd asesu yn newid yn y tymor hwy, disgrifiwyd ei bod yn anodd derbyn yn llawn y newidiadau i'r cwricwlwm ac adlewyrchu hyn yn y broses ddylunio.

5.35 Mae'r astudiaethau achos isod yn rhoi enghraifft o'r dulliau y mae tair ysgol wedi'u defnyddio i ddylunio, cynllunio a threialu addasiadau i'w cwricwla.[10]

[10] Mae'r astudiaethau achos hyn yn rhoi darlun o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil ac nid ydynt yn cymeradwyo dulliau penodol.

| **Astudiaeth Achos 4: Ysgol Uwchradd**<br>**Thema: Cydweithio a ffocws ar addysgeg** |
|---|
| **Trosolwg o gynnydd yr ysgol o ran ei pharatoadau** |
| Adroddodd yr ysgol am ddatblygiadau arwyddocaol mewn **dylunio a threialu** addasiadau i'w chwricwlwm ei hun er mwyn paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ysgol wedi dylunio **strwythur** lle y gall pob Maes gymryd **perchnogaeth** o'r broses o ddylunio'r cwricwlwm ac mae wedi rhoi **pwyslais cryf ar ddatblygu addysgeg effeithiol.** |
| **Y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgol** |

Mabwysiadodd yr ysgol ddull gofalus o ddylunio'r cwricwlwm ac roedd o'r farn bod sefydlu addysgeg effeithiol yn hanfodol. Ystyriodd yr ysgol y tri sgil trawsgwricwlaidd yn gyntaf ac yna datblygodd ei dull o ddylunio'r cwricwlwm. Ymhlith y gweithgareddau a hyrwyddodd y dull hwn mae'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Staff yn manteisio ar hyfforddiant a ddarperir gan y consortia | Sicrhau bod y staff yn ymgyfarwyddo â'r Cwricwlwm i Gymru |
| Amser i staff ddod at ei gilydd i gynllunio'r Meysydd | Mae perchnogaeth gan staff yn hanfodol |
| Yr Uwch Dîm Arwain yn cynnig cymorth wedi'i dargedu ar gyfer Meysydd | Ymgysylltu â rhanddeiliaid |
| Newid y dull o ymdrin â dull Llais y Disgybl i werthuso newidiadau | Hyrwyddo cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol gydag ysgolion eraill |

Sefydlwyd **strwythur** i sicrhau bod uwch aelod o'r tîm arwain yn rheoli pob Maes er mwyn cynnig **mewnbwn wedi'i deilwra,** gan werthfawrogi bod pob Maes **yn wahanol o ran ei gyd-destun.** Mae'r Uwch Dîm Arwain yn cyfarfod bob pythefnos gyda Phenaethiaid Adrannau ac mae'r Cwricwlwm i Gymru yn **eitem ffurfiol ar yr agenda**. Mae un aelod o'r Uwch Dîm Arwain yn derbyn yr holl gofnodion ffurfiol o'r cyfarfodydd Maes ac mae ganddo **drosolwg** o ddatblygiadau ar draws yr ysgol.

**Beth sy'n gweithio'n dda?** Mae Meysydd yn cael **cyfle i gydweithio** er mwyn cael ymdeimlad o'u Maes a'u gweledigaeth eu hunain. Mae gwaith yn cael ei wneud ar ddatblygu **perthnasau'r staff** o fewn Meysydd cyn canolbwyntio ar ddylunio'r cwricwlwm. Mae yna **ffocws gwahanol** ar ddatblygiad bob tymor, e.e. yn ystod y tymor cyntaf ystyrir sut i sicrhau'r pedwar diben, y tymor nesaf bydd yn canolbwyntio ar ddatganiadau 'yr hyn sy'n bwysig', a'r tymor wedyn datblygir camau cynnydd a strategaethau asesu i '*sicrhau ffordd gydgysylltiedig o feddwl'*.

Fodd bynnag, y cam mwyaf yw'r newid yn y **trefniadau asesu** ac mae staff yn ansicr iawn o'r goblygiadau ar hyn o bryd. Mae lefel y pryder yn amrywio rhwng Meysydd; mae rhai yn fwy seiliedig ar sgiliau ac yn llai pryderus ond mae staff eraill yn **bryderus** ynghylch sut y caiff yr asesiadau eu llunio ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. Mae pryder y gallent gael eu dehongli'n wahanol gan bob ysgol ac awdurdod lleol.

**Astudiaeth Achos 5: Ysgol Arbennig**
**Thema: Gweithio ar draws Meysydd i ddylunio dulliau'n seiliedig ar bynciau**

Trosolwg o gynnydd yr ysgol o ran ei pharatoadau

Mae’r ysgol wedi bod yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ers pum mlynedd, gan gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau i gefnogi hyn:

| | |
|---|---|
| Mynychu cyrsiau hyfforddi Consortia Addysg Rhanbarthol | Cysylltu ag Ysgolion Arloesi |
| Ymgorffori strategaethau llythrennedd a rhifedd | Gweithredu’r Fframwaith Cymhwysedd Digidol |
| Cyflwyno hyfforddiant yn yr ysgol (e.e. egwyddorion addysgeg) | Cyflwyno diwrnodau trochi thematig i ddysgwyr |
| Datblygu dysgu cyfunol | Cymryd rhan mewn gweithgaredd arsylwi gwersi mewn triawdau |

I ddechrau, canolbwyntiodd yr ysgol ar sut y mae'r **pedwar diben** yn cyd-fynd ag ethos yr ysgol, gan osod y rhain wrth wraidd yr holl waith cynllunio gwersi. Bu’r dysgwyr yn ymwneud o’r cychwyn cyntaf â datblygu dealltwriaeth ehangach yn yr ysgol o’r pedwar diben – fe wnaethant greu cymeriadau i gynrychioli pob un o’r dibenion.

Mae darparu **hyfforddiant parhaus i staff** dros y pum mlynedd diwethaf wedi sicrhau bod yr holl staff yn wybodus am yr hyn sydd ei angen; roedd tîm y staff yn awyddus i ddechrau cyflwyno'r cwricwlwm newydd. O ganlyniad, mae’r ysgol wedi defnyddio'r Cwricwlwm i Gymru dros y blynyddoedd diwethaf ac mae’r ysgol yn ‘*gwbl barod amdano*'.

**Y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgol**

Roedd y **diwrnodau trochi** yn canolbwyntio ar bob un o'r **pedwar diben** ac yn cynnwys darparwyr allanol yn cyflwyno gweithgareddau yn yr ysgol. Er enghraifft, sesiynau i ddatblygu lles i gefnogi'r 'unigolyn iach, hyderus'. Roedd y gweithgareddau hyn yn helpu i **feithrin dealltwriaeth staff a dysgwyr** o'r dibenion craidd.

Yn ystod sesiynau **hyfforddiant cyfnos**, a dwy **sesiwn CPA wythnosol ychwanegol** mae staff yn gweithio mewn timau Maes i gynllunio, datblygu prosiectau trawsgwricwlaidd a rhyng-faes, a rhannu arferion da. Arweinwyr Maes sy'n **sicrhau ansawdd** y cynllunio. Mae staff yr ysgol yn arwain yr holl waith cynllunio ac wedi cymryd *'perchnogaeth'* ohono. Mae'r dysgwyr yn cynnig is-themâu ar gyfer pynciau. Bellach mae pob gwers yn cynnwys sylfaen o lythrennedd, rhifedd a dysgu digidol ac mae'r amcan disgyblaeth pwnc yn eilaidd i’r rhain, a chaiff CCUHP, cyd-destunau Cymreig a bywyd go iawn eu cynnwys hefyd.

**Beth sydd wedi gweithio'n dda?** '*Mae ei wneud yn raddol wedi sicrhau digon o amser i ddatblygu dros y blynyddoedd diwethaf*' a blaenoriaethu hyfforddiant staff ar yr egwyddorion addysgeg. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y system **TG yn annibynadwy** yn rhwystr, gyda'r gwasanaeth yn 'methu' yn aml. Mae angen mwy o gymorth ymarferol hefyd i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o’r gofynion asesu/dilyniant – *'dyma ddarn olaf y jig-so'*.

## Astudiaeth Achos 6: Ysgol uwchradd
## Thema: Dylunio a threialu

### Trosolwg o gynnydd yr ysgol o ran ei pharatoadau

Mae'r ysgol wedi penodi arweinwyr Maes ac wedi adolygu eu darpariaeth yn erbyn elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae wedi dechrau dylunio a threialu gweithgaredd ond nid yw wedi arfarnu hyn yn llawn eto.

### Y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgol

Mae'r ysgol wedi penodi pum **arweinydd Maes** sy'n arwain gweithgaredd dylunio a threialu. Mae arweinwyr Maes wedi bod yn cydlynu proses o 'archwilio' darpariaeth bresennol yr ysgol, gan weithio gydag ymarferwyr ym mhob adran i **archwilio 'cwmpas' elfennau'r Cwricwlwm i Gymru a nodi bylchau**. Dangosodd y broses hon nad oedd staff yr ysgol yn deall y camau cynnydd, a arweiniodd wedyn at weithgarwch manylach i archwilio hyn.

Bu trafodaethau rhwng ymarferwyr mewn gwahanol adrannau i geisio canfod cysylltiadau rhwng eu pynciau (e.e. rhwng ffabrigau a defnyddiau mewn Dylunio a Thechnoleg ac astudio rôl y fasnach ffabrig mewn caethwasiaeth mewn Hanes). Mae'n bwriadu ceisio ffurfioli'r cysylltiadau hyn rhwng adrannau yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

| | |
|---|---|
| Nodi elfennau cyffredin rhwng pynciau a Meysydd | Penodi arweinwyr Maes |
| Adolygu cwmpas ysgolion o elfennau'r Cwricwlwm i Gymru yn y ddarpariaeth bresennol | Gosod targedau perfformiad i staff o ran treialu dulliau newydd |

Mae pob athro bellach wedi cwblhau un cylch llawn o ddylunio a threialu prosiectau gyda dysgwyr Blwyddyn 9, gyda phob Maes yn canolbwyntio'n benodol ar un agwedd ar y Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, mae'r adrannau Gwyddoniaeth a Dylunio a Thechnoleg wedi defnyddio'r camau cynnydd fel 'sgaffaldiau' ar gyfer dylunio a threialu prosiectau newydd mewn pedwar pwnc. Nid yw'r ysgol wedi arfarnu'r prosiectau'n llawn eto, ond mae'r arweinydd cwricwlwm yn cyfarfod ag ymarferwyr ar draws adrannau i gasglu safbwyntiau ansoddol ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ac mae'n bwriadu rhannu'r hyn a ddysgir ar draws yr ysgol. Mae adborth cychwynnol yn awgrymu bod ymarferwyr wedi'i chael hi'n heriol barnu a yw'r cynnwys 'wedi'i osod ar y lefel gywir' a sut i esbonio i ddysgwyr sut y gallant symud rhwng camau cynnydd.

**Beth sydd wedi gweithio'n dda?** Mae penodi arweinwyr Maes wedi bod yn gam cadarnhaol, ac mae'r broses 'archwilio' wedi helpu i nodi pa agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru yr oedd angen cymorth pellach ar yr ymarferwyr i'w deall. Mae'r ysgol yn hoffi caniatáu i ymarferwyr gael rheolaeth dros y broses.

Teimlai uwch arweinydd fod y pandemig wedi atal rhywfaint o weithgarwch (e.e. treialu profiadau dysgu ymarferol). Fodd bynnag, dywedwyd hefyd eu bod wedi gallu bwrw ymlaen â pheth gweithgaredd yn ystod y cyfnod hwn (e.e. datblygu sgiliau llythrennedd digidol disgyblion). Teimla'r ysgol fod trefniadau asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr yn aneglur ac y byddai mwy o weithgaredd dysgu proffesiynol ar y camau cynnydd yn fuddiol.

**Astudiaeth Achos 7: Ysgol pob oed (3-18)**
**Thema: Dylunio a threialu cwricwlwm mwy arbrofol**

**Trosolwg o gynnydd yr ysgol o ran ei pharatoadau**

Mae'r ysgol wedi comisiynu ei gweithgaredd dysgu proffesiynol ei hun er mwyn ennyn diddordeb a datblygu dealltwriaeth y staff. Mae wedi canolbwyntio ar wella ei **hamgylchedd dysgu awyr agored** a phrofiadau awyr agored i ddysgwyr. Nid yw'r ysgol wedi datblygu ei gweledigaeth eto ac mae'n ddyddiau cynnar o ran y broses ddylunio ond mae'n bwriadu canolbwyntio mwy ar hyn yn ystod 2021-22.

**Y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgol**

Teimlai'r ysgol ei bod ar ei hôl oherwydd y pandemig ac felly comisiynodd **arbenigwyr allanol i gynnal chwe diwrnod dysgu proffesiynol**, pob un yn canolbwyntio ar Faes penodol. Dadansoddodd yr arbenigwyr (academyddion, ymarferwyr ac arbenigwyr llawrydd) y dogfennau canllaw yn y sesiynau hyn ac eglurodd uwch arweinydd fod hyn wedi creu brwdfrydedd a chymhelliant ymhlith y staff: *'Mae'n bwysig cael hyn yn iawn. Y perygl yw os byddwn yn ei wneud yn anghywir a bod canfyddiad pobl yn cael argraff wael y tro cyntaf iddynt weithio gydag ef, gallai gael enw drwg fel y cafodd Bagloriaeth Cymru.'*

Ers y sesiynau hyn, mae'r ysgol wedi dechrau nodi **cysylltiadau rhwng adrannau** a datblygu'r rhain (e.e. defnyddio data profion ffitrwydd mewn Addysg Gorfforol ar gyfer dadansoddi a monitro data mewn gwersi Mathemateg). Mae'r ysgol eisiau cynyddu dysgu drwy brofiad a gwaith thematig cysylltiedig, rhywbeth sy'n eithaf anghyfarwydd i ysgolion uwchradd. Fel rhan o'r broses hon, mae'r ysgol wedi datblygu **adnodd dysgu awyr agored amlbwrpas** newydd; mae'n cynnwys pyllau awyr agored, twneli polythen, cwch gwenyn, gwelyau plannu wedi'u codi ac ystafell ddosbarth awyr agored. Teimlai uwch arweinydd yn yr ysgol fod hyn wedi helpu i ddod â dysgu yn fyw a hwyluso dysgu trawsgwricwlaidd, er enghraifft canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd, lles, systemau cynhyrchu bwyd a'r economi gylchol. Mae'r ysgol yn gobeithio datblygu'r cyfleusterau ymhellach er mwyn gallu canolbwyntio ar gynhyrchu ynni glân a gweithgareddau ysgol goedwig.

| | |
|---|---|
| Mae arweinwyr ymchwil yn rhannu arferion da ac yn uwchsgilio eraill | Mae staff enwebedig yn ymgysylltu â staff ysgolion cynradd a dysgwyr |
| Comisiynu arbenigwyr allanol i gynnal gweithgaredd dysgu proffesiynol | Datblygu cyfleusterau dysgu awyr agored |

Mae'r ysgol wedi penodi pedwar aelod o staff i rolau ymchwil sy'n gysylltiedig â datblygu ei chwricwlwm. Mae'r rhain yn arweinwyr ar gyfer y meysydd addysgeg, dysgu awyr agored, cynhwysiant a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Bydd yr arweinwyr hyn yn gyfrifol am gysylltu â staff i ymchwilio i syniadau, rhannu'r rhain ag ymarferwyr, cofnodi canfyddiadau treialu a gwerthuso llwyddiant datblygu adnodd i rannu'r hyn a ddysgir gyda'r holl staff. Mae'r staff hyn wedi cael sesiynau dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar arferion ymchwil a dadansoddi data.

**Beth sydd wedi gweithio'n dda?** Mae penodi arweinwyr ymchwil sy'n canolbwyntio ar rannu syniadau ac arfer da ar draws gwahanol Feysydd wedi gweithio'n dda, yn ogystal â defnyddio arbenigedd allanol i gyflwyno hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn dal i bryderu ynghylch a oes gan y staff y sgiliau i ddylunio cwricwlwm cyfan ac yn teimlo bod ansicrwydd ynghylch y trefniadau asesu.

# 6. Gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf

6.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â phrofiadau'r rhai a gyfwelwyd o werthuso dulliau newydd o gyflwyno'r cwricwlwm a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf.

6.2 Holwyd y rhai a gyfwelwyd am nifer o faterion yn ymwneud â gwerthuso agweddau ar y cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau ynghylch:

- a oeddent wedi gwerthuso dulliau newydd o gyflwyno'r cwricwlwm ac wedi defnyddio hyn i ddylanwadu ar y broses ddylunio barhaus ac, os felly, sut;
- yr hyn a oedd yn gweithio'n dda o ran gwerthuso dyluniadau cychwynnol a threialu dulliau pellach;
- y rhwystrau i werthuso dyluniadau cychwynnol a threialu dulliau gweithredu pellach.

### Gweithgarwch a wnaed i adolygu a gwerthuso dulliau newydd

6.3 Eglurodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd nad oeddent eto wedi cyrraedd y pwynt lle yr oeddent wedi adolygu neu werthuso dulliau newydd, gan nodi bod gweithgarwch dylunio a chynllunio yn mynd rhagddo a'u bod yn bwriadu adolygu eu dulliau yn ystod tymor y gwanwyn. Mewn rhai achosion, nododd uwch arweinwyr fod trafodaethau anffurfiol wedi'u cynnal gyda rhai arweinwyr canol a staff a oedd yn arwain ar agweddau ar ddatblygu'r cwricwlwm neu wedi dechrau cyflwyno arferion addysgu newydd yn unol â'r egwyddorion addysgeg. Nododd yr ysgolion hyn y byddent yn cynnal mwy o waith gwerthuso a thrafodaethau er mwyn dysgu o ddatblygiadau cychwynnol yn ystod 2022.

6.4 Dywedodd rhai uwch arweinwyr a nododd eu bod wedi cynnal adolygiadau cychwynnol o baratoadau eu bod wedi cyflawni'r gweithgaredd canlynol:

- **Trafodaeth anffurfiol amlach a myfyrio ar ymarfer:** nododd rhai ysgolion eu bod wedi gweld symudiad tuag at drafodaethau mwy agored am ddulliau cynllunio ac ymarfer addysgu. Nododd yr ysgolion hyn eu bod wedi disodli cyfarfodydd staff cyfan wythnosol i ryddhau amser i gydweithwyr gael trafodaethau tîm llai am ddysgu proffesiynol fel adrannau neu Feysydd.

Cyfeiriodd rhai ysgolion hefyd at gynnydd mewn trafodaeth anffurfiol a myfyrdodau ar sut y mae arferion addysgu yn newid. Cynorthwywyd hyn drwy sicrhau bod yr holl ddogfennau cynllunio yn fyw ac yn hygyrch i bawb drwy systemau TG yr ysgol;

'Gall staff adolygu gwaith cynllunio ei gilydd. Mae mwy o ymarfer agored, datblygol a chydweithredol yn digwydd.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

- **Gweithgaredd gwerthuso sy'n canolbwyntio ar adborth dysgwyr:** nododd ambell ysgol ei bod wedi gofyn cyfres o gwestiynau i ddysgwyr am yr hyn yr oeddent yn ei fwynhau, yr hyn nad oeddent yn ei fwynhau, yr hyn y maent wedi'i ddysgu, ac a fyddai plant yn mwynhau'r gwersi hyn y flwyddyn nesaf.

'Yn aml mae thema yn codi o'r ymatebion hyn ac yna mae'r ysgol yn gweithredu ar hyn. Mae pwyslais ar hawliau'r plentyn … rydym yn gofyn i blant beth sydd o ddiddordeb iddyn nhw.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

- **Arsylwi gwersi â ffocws:** nododd rhai ysgolion eu bod yn defnyddio llwyfannau digidol masnachol er mwyn i staff hunanarfarnu eu gwersi. Mae'r llwyfannau hyn wedi'u haddasu i gysylltu â fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a safonau proffesiynol, a gellir nodi meysydd i'w datblygu a'u defnyddio i lywio'r gwaith cynllunio. Caiff canlyniadau hunanarfarnu eu triongli ag adolygiadau o lyfrau dysgwyr a bydd aelod arweiniol o'r staff yn ymgymryd â'r broses sicrhau ansawdd;

- **Adeiladu ar brosesau presennol**: nododd rhai ysgolion eu bod wedi cynnal y trefniadau gwerthuso ac adolygu presennol ond bod y rhain bellach yn canolbwyntio ar ddiwygio'r cwricwlwm a chynnydd o ran eu paratoadau.

'Bob hanner tymor mae pob pennaeth adran yn cael cyfarfod gyda'r pennaeth a'r dirprwy i adolygu ac arfarnu'r hyn a ddysgwyd y tymor blaenorol. Mae'r prosesau sydd gennym ar waith eisoes yn cefnogi gwerthusiad mewnol [o'r cwricwlwm newydd].' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

6.5 Roedd enghreifftiau mwy ynysig o weithgareddau i adolygu a gwerthuso paratoadau mewn ysgolion unigol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- **Hyfforddiant gan gymheiriaid drwy driawdau:** dywedodd un ysgol ei bod yn gweithio mewn triawdau gydag athrawon yn cefnogi pob un drwy arsylwi a hyfforddiant anffurfiol;

- **Prosesau ymarfer ac adolygu sy'n seiliedig ar ymchwil**: roedd ysgol arall wedi sefydlu grwpiau ymchwil (o fewn adrannau neu Feysydd). Mae'r grwpiau hyn yn datblygu syniadau i athrawon roi cynnig arnynt mewn gwersi, yn seiliedig ar roi datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig ar waith, ac yna'n arwain sesiynau adborth a 'sgyrsiau hyfforddi' yn ystod cyfarfodydd adrannol;
- **Ymchwilio a pharatoi ar gyfer addysgu trawsgwricwlaidd**: mae paratoadau mewn un ysgol yn cynnwys datblygu 'llyfryn addysgu a dysgu' a fydd yn cyflwyno syniadau ar gyfer dulliau gweithredu y gall staff eu defnyddio.

6.6 Nododd ambell uwch arweinydd ei fod wedi dechrau cynllunio'r prosesau adolygu ac arfarnu ond heb ddechrau gweithgarwch eto. Yn yr ysgolion hyn, roedd cynlluniau ar waith i ddefnyddio dulliau a meddalwedd amrywiol i gofnodi canfyddiadau a'u rhannu ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau dull cyfunol. Roedd ysgol arall wedi cael cymorth gan ymgynghorydd allanol i ddatblygu sgiliau ymchwil a dadansoddi data i gefnogi gweithgarwch gwerthuso yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd.

6.7 Dywedodd cyfran lai o'r ymarferwyr a gyfwelwyd eu bod wedi cymryd rhan mewn gwerthusiadau o'r broses gychwynnol o gyflwyno'r cwricwlwm. Dywedodd ymarferwyr a nododd eu bod wedi adolygu neu werthuso darpariaeth gynnar y cwricwlwm fod hyn wedi bod ar ffurf trafodaethau anffurfiol gyda chydweithwyr i fyfyrio ar ddulliau newydd a gyflwynwyd, a chasglu a rhannu adborth gan ddysgwyr. Nododd rhai fod oedi wedi bod yn y prosesau gwerthuso ac adolygu gan nad oedd ysgolion wedi cyrraedd y cam hwn o'u paratoadau eto.

6.8 Nododd ambell ymarferydd y byddai'n ddefnyddiol clywed mwy am brofiadau ymarferwyr eraill (yn enwedig y rheini sy'n gweithio gyda grwpiau blwyddyn tebyg neu yn yr un Meysydd) drwy glipiau fideo ar Hwb neu drwy lwyfannau eraill.

*Pwyntiau dysgu*

6.9 Nododd yr uwch arweinwyr fod y prif bwyntiau dysgu o weithgarwch gwerthuso ac adolygu cychwynnol fel a ganlyn:

- Mae angen deall y gall pynciau ac adrannau o fewn yr un ysgol fod ar gamau gwahanol iawn o ran eu paratoadau a'u trefniadau. Nododd uwch arweinwyr

eu bod yn adolygu cynnydd pob Maes yn ystod tymor yr hydref 2021 gyda'r bwriad o dargedu cymorth wedi hynny at y Meysydd a'r cydweithwyr hynny a oedd ychydig ymhellach ar ei hôl hi o ran ymgysylltu a'u paratoadau ymarferol.

- Roedd Meysydd a thimau yn 'dysgu'n gyflym bod angen iddynt gropian cyn cerdded'. Pwysleisiodd yr uwch arweinwyr yr angen am ddull graddol ac ailadroddol o ymdrin â phob agwedd ar y broses ddiwygio, o'r weledigaeth hyd at gynllunio cynnwys y cwricwlwm. Cyfeiriodd rhai at y ffaith bod adolygu, gwerthuso ac ailddylunio parhaus yn rheolaidd yn elfennau hollbwysig o'r broses ddiwygio.
- Nododd uwch arweinwyr bwysigrwydd newid meddylfryd fel bod athrawon yn gweld bod adolygu eu hymarfer yn broses gadarnhaol ac adeiladol. Nododd un uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd nad oedd trafodaethau am wella ymarfer bellach yn cael eu hysgogi gan atebolrwydd fel rhan o adolygiad perfformiad ond yn hytrach gan ddulliau cydweithredol o gefnogi gwelliant.

'Mae'r dull o arsylwi wedi newid – mae athrawon bellach yn defnyddio arsylwi gwersi fel cyfle datblygu proffesiynol yn hytrach na rhywbeth sy'n ymwneud ag atebolrwydd.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

- Cyfeiriodd uwch arweinwyr at bwysigrwydd cyfuno 'dulliau sefydledig o gasglu tystiolaeth o ansawdd' â barn disgyblion ynghylch effeithiolrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth. Cyfeiriodd y rhain at yr angen am 'onestrwydd' a 'chynhwysiant' wrth arfarnu darpariaeth.
- Nododd rhai ysgolion eu bod wedi dysgu, drwy eu 'paratoadau a'u myfyrdodau ar waith hyd yn hyn', bod angen iddynt fod yn 'fwy mentrus'. Nododd uwch arweinwyr fod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae wrth annog athrawon i dreialu pethau heb ofni methu.

'Rydym wedi mabwysiadu dull '*camgymeriadau gwych'* lle rydym yn myfyrio ar bethau ac yn trafod yr hyn nad yw wedi gweithio a pham. Mae'n hanfodol bod staff yn dod at ei gilydd ac yn rhannu syniadau fel rhan o broses hunanwerthuso.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

- Nododd uwch arweinwyr eu bod wedi dysgu bod angen iddynt fod yn fwy rhagnodol a darparu arweiniad manylach ar rai agweddau ar ddylunio

cwricwlwm a'r trefniadau asesu – gan gydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau eu bod yn gallu rhoi'r arweiniad hwn i ymarferwyr.

'Mae'r staff yn deall sut i baratoi gwersi, ond nid ydynt yn hyderus gyda'r cwricwlwm yn gyffredinol ac wrth ragweld sut y mae sgiliau'n datblygu ar draws y cwricwlwm cyfan. Rydym yn bwriadu dod at ein gilydd fel consortiwm i rannu arferion da ar y pethau hyn a chymryd rhan mewn beirniadaeth adeiladol'. Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

- Dywedodd uwch arweinwyr fod dulliau cyfunol, lle mae uwch aelodau o adrannau'n gweithio'n agos gyda staff eraill yn eu Maes Dysgu ar agweddau ar ddiwygio'r cwricwlwm (o'r weledigaeth i gynllunio cynnwys y cwricwlwm) yn arbennig o fuddiol.
- Nododd un uwch arweinydd mewn ysgol gynradd fod gwerthusiad mewnol o ddulliau a dreialwyd yn ei ysgol wedi dangos bod gwaith yn seiliedig ar brosiectau yn ystod sesiynau'r prynhawn wedi gweithio'n dda. Dangosodd y dysgwyr frwdfrydedd tuag at ddysgu drwy brofiad yn ystod y sesiynau hyn. Roedd hyn yn cael ei fwydo i'r broses gyffredinol o gynllunio amserlen wrth edrych i'r dyfodol.
- Amlinellodd ysgolion y ffyrdd yr oeddent wedi dechrau adolygu dyluniad eu cwricwlwm newydd, gan fapio'r ddarpariaeth mewn rhai achosion yn erbyn agweddau ar fframwaith a chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru (e.e. datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, disgrifiadau o ddysgu) er mwyn bwydo i'r gwaith o gynllunio gwersi.

6.10 Mae'r astudiaeth achos isod yn rhoi enghraifft o sut y mae un ysgol yn gwerthuso dulliau newydd o gyflwyno'r cwricwlwm ac yn paratoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf.[11]

[11] Mae'r astudiaethau achos hyn yn rhoi darlun o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil ac nid ydynt yn cymeradwyo dulliau penodol.

**Astudiaeth Achos 8: Ysgol gynradd**
**Thema: Gwerthuso addysgu am y tro cyntaf a defnyddio dadansoddiad o fylchau i fireinio dulliau gweithredu**

Trosolwg o gynnydd yr ysgol o ran ei pharatoadau

Disgrifiodd y pennaeth yr ysgol fel un sy'n 'eithaf datblygedig o ran ein taith' tuag at y cwricwlwm newydd. Datblygodd yr ysgol ei gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm yn 2018; sefydlodd dimau i arwain ar bob Maes; ac mae wedi **gweithio gyda llywodraethwyr, rhieni a phlant** i lywio'r gwaith o ddylunio'r cwricwlwm, gan arwain at nodi 12 o brosiectau sy'n cael eu cyflwyno fel rhaglen dreigl dwy flynedd.

Mae'r ysgol wedi ymgymryd â **dadansoddiad o fylchau** ac wedi nodi agweddau nodedig ar y 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' nad oeddent yn cael sylw yn ei chynlluniau dysgu. Roedd hyn o gymorth iddi fyfyrio ar y cylch nesaf o weithgarwch i sicrhau ei bod yn ymgorffori pethau na roddwyd digon o sylw iddynt yn flaenorol:

> *'Rydym wedi dysgu y gallai ein dadansoddiad fod yn fwy effeithiol. Hyd yn hyn mae wedi'i seilio'n bennaf ar gynlluniau athrawon, ac nid ar yr hyn a addysgwyd a'r hyn a ddysgwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Fe wnaethom sylweddoli bod angen i ni wrando mwy ar ddysgwyr i werthuso'r hyn a gawsant o'r sesiynau.'*

| | |
|---|---|
| Ymrwymiad i adolygu a gwella'n barhaus | Penodi arweinwyr Maes |
| Adolygu i ba raddau y mae'r ysgol yn cwmpasu agweddau allweddol ar fframwaith y Cwricwlwm i Gymru | Cysylltiadau â fframweithiau rhifedd a llythrennedd |

Her ymarferol sy'n wynebu'r ysgol wrth geisio adolygu cynnydd dysgwyr wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd yw bod llai o ddeunydd ysgrifenedig yn llyfrau'r disgyblion. Nododd y pennaeth fod y dull addysgu wedi newid a bod mwy o bwyslais ar ddyfnhau gwybodaeth drwy adnoddau a thrafodaeth cyn symud ymlaen i waith ysgrifenedig. Mewn mathemateg, er enghraifft, nid yw'n ymwneud â thudalennau o symiau, mae'n ymwneud â deall cysyniadau sylfaenol. Weithiau gall hyn fod yn anodd o ran gwerthuso'r addysgu oherwydd bod llai o ddeunyddiau a gynhyrchir gan ddysgwyr ar gael.

> *'Dyma pam rydyn ni'n teimlo bod angen mewnbwn uniongyrchol gan ddysgwyr i lywio ein gwerthusiad – fe wnaethom sylweddoli bod angen dulliau mwy effeithiol o gasglu profiadau dysgu dysgwyr er mwyn twrio'n ddyfnach a deall eu cynnydd.'*

**Y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgol**

Mewn mathemateg, mae'r ysgol wedi datblygu 'pecyn cymorth' i gefnogi adolygu a dadansoddi bylchau: mae athrawon yn trafod cwestiynau penodol gyda'r plant ac, os yw dysgwyr yn gallu ateb rhai cwestiynau mathemategol, maent yn gwybod bod disgyblion wedi datblygu'r sgiliau ac wedi dysgu'r hyn y mae angen iddynt ei ddysgu. Mae'r ysgol yn cynhyrchu pecyn cymorth cyfatebol ar lythrennedd fel ei bod yn gwybod beth fydd y disgwyliadau ar gyfer pob grŵp blwyddyn ac yn gallu mesur cynnydd. Y syniad gyda'r pecyn cymorth llythrennedd yw pan fydd athrawon yn siarad ac yn gwrando ar ddysgwyr y gallant eu holi ynglŷn ag atalnodi neu fathau penodol o frawddegau, i helpu i ddeall a yw'r dysgu hwn wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm.

> *'Yn flaenorol, roedd ein dadansoddiad o fylchau yn seiliedig i raddau helaeth ar ein greddf ond mae cael rhywbeth mwy strwythuredig a systematig - sy'n gysylltiedig â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - yn rhoi'r sicrwydd i ni bod y meysydd wedi'u cwmpasu'n dda yn ein dyluniad cyffredinol.'*

*Rhwystrau i werthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf*

6.11 Dywedodd ysgolion fod amser a’r aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig wedi effeithio ar gynnydd cyffredinol o ran y paratoadau ar gyfer y cwricwlwm ac, o ganlyniad, ar weithgarwch adolygu a gwerthuso. Eglurodd uwch arweinwyr fod y pandemig wedi cyfyngu ar nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng athrawon ar draws cyfnodau ac adrannau, gan gyfyngu ar yr amser a’r cyfleoedd i adolygu gweithgarwch cychwynnol, lle roedd ysgolion wedi cyrraedd y cam hwn o’u paratoadau.

6.12 Cyfeiriodd ysgolion at nifer o faterion a oedd wedi creu rhwystrau i werthuso darpariaeth gychwynnol y cwricwlwm.

- Roedd nifer o ysgolion yn pryderu ynghylch sut i ymdrin â’r broses o werthuso effeithiolrwydd gweithredu’r cwricwlwm a deilliannau dysgwyr;

  'Sut fyddwn ni'n gwybod a yw'n gweithio mewn gwirionedd?' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

- I rai roedd diffyg eglurder ynghylch asesu yn rhwystr i werthuso.

6.13 Rhannodd un ysgol ei phrofiad cychwynnol o ddylunio'r cwricwlwm, a oedd yn seiliedig ar gamddealltwriaeth o sut i gynllunio cynnwys y cwricwlwm; nododd yr ysgol hon ei bod wedi datblygu a threialu cynllun cwricwlwm a oedd yn ceisio cwmpasu 'pob agwedd ar bob Maes Dysgu a Phrofiad [Maes] mewn bloc tymhorol'. Wrth adolygu'r dull sylweddolodd yr ysgol ei bod wedi 'ceisio gwasgu'r holl sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i dymor, pan oedd angen iddynt fod yn cynllunio ar sail cylch dwy flynedd'. Mae’r ysgol bellach wedi symud i gylch cynllunio dwy flynedd sy’n canolbwyntio ar wahanol sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o dan wahanol bynciau.

## 7. Y costau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cwricwlwm

7.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i ysgolion yng Nghymru i gefnogi paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Buddsoddwyd tua £35 miliwn i gefnogi diwygio’r cwricwlwm yn 2021-22, a oedd yn cynnwys cyllid i ysgolion i’w helpu i baratoi a gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru.

7.2 Gofynnwyd i uwch arweinwyr a gyfwelwyd yn ystod yr ymchwil ddarparu enghreifftiau o’r costau sy’n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer diwygio’r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys costau a gwmpesir gan y gwariant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r ffynonellau a amlinellir uchod, a hefyd weithgareddau neu wariant y dywedodd ysgolion eu bod yn talu amdanynt o’u cyllidebau ysgol eu hunain. Mae'r adran hon yn crynhoi'r pwyntiau a godwyd droeon yn ystod y cyfweliadau.

- Dywedodd ysgolion mai’r gost fwyaf yw’r amser y mae uwch arweinwyr a staff yn ei dreulio i ffwrdd o’r ysgol. Mae hyn yn cynnwys arweinwyr Maes yn gweithio ar baratoadau a chael amser y tu allan i'r ystafell ddosbarth neu weithio gyda'r consortiwm a chydag ysgolion partner.
- Amser cynllunio, paratoi ac asesu ychwanegol bob wythnos i gefnogi datblygiadau'r cwricwlwm ar gyfer staff a’r amser i fynychu sesiynau hyfforddi cyfnos.
- Costau sy’n gysylltiedig â dysgu proffesiynol i gynorthwyo paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- Eglurodd nifer o ysgolion fod rolau neu swyddi newydd wedi’u creu, gan gynnwys:
    - Penodi arweinwyr Maes, sydd wedi cynnwys taliadau CAD ychwanegol i aelodau o staff mewn ysgolion uwchradd. Nododd ysgolion, yn ogystal â’r costau uniongyrchol, fod y rolau hyn yn golygu lleihau amser addysgu arweinwyr Maes o dair awr yr wythnos (i arwain ar ddatblygu’r cwricwlwm yn eu Maes priodol), gan arwain at yr angen i gael athrawon cyflenwi i gwmpasu'r amser hwn neu'r angen i ailamserlennu.

- Rôl newydd mewn ysgol uwchradd yn y Maes Iechyd a Lles: mae'r rôl yn ymwneud ag ymgysylltu ag ysgolion bwydo cynradd i gydweithio ag ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr a'u huwchsgilio i gyflwyno gwersi llythrennedd corfforol o ansawdd da. Y nod yw cefnogi dysgwyr yn y cyfnod cynradd fel eu bod mewn gwell iechyd corfforol pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol uwchradd.
- Penodi athrawon (o blith y staff ysgol presennol) i arwain ar brosiectau ymchwil ac ymholi sy'n ymwneud â: newid dulliau o ymdrin ag addysgeg; dysgu awyr agored a thrwy brofiad; addysgu a dysgu cynhwysol o dan y Cwricwlwm i Gymru; a dysgu digidol ac alinio'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol â threfniadau'r cwricwlwm newydd. Eglurodd sawl ysgol fod y swyddi hyn (gydag enghreifftiau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd) yn gontractau dros dro gyda phwyntiau CAD ychwanegol.

- Costau amser allan o'r ysgol, trafnidiaeth a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Amcangyfrifodd un ysgol uwchradd fod yr eitemau hyn wedi costio tua £7,000 mewn blwyddyn.
- Adroddwyd bod diwrnodau HMS a gweithgareddau dysgu proffesiynol dynodedig yn canolbwyntio ar drefniadau'r cwricwlwm newydd wedi arwain at gostau ychwanegol. Mewn un ysgol, er enghraifft, roedd wythnos hyfforddi a oedd yn canolbwyntio ar y cwricwlwm newydd yn haf 2021 wedi costio £10,000 o ran siaradwyr gwadd, cymorth ymgynghori allanol, a gweithgarwch arall. Dywedodd y pennaeth fod y costau hyn wedi cael eu talu o gyllideb yr ysgol.
- Cyfeiriodd ysgolion at gostau ychwanegol yn ymwneud â TG. Dywedodd ambell ysgol eu bod wedi prynu Chromebooks, trwyddedau (e.e. IRIS) a chyfarpar arall, llawer ohono'n gysylltiedig â datblygiadau'r cwricwlwm newydd neu'n deillio o hynny.
- Cyfeiriodd rhai ysgolion at gostau datblygu ardaloedd dysgu awyr agored a mannau chwaraeon.

*Sut y mae costau ychwanegol yn cael eu talu?*

7.3 Dywedodd yr ysgolion fod y costau staffio ychwanegol (aelodau ychwanegol o staff a CAD ychwanegol) yn cael eu talu o gyllidebau ysgol a hefyd drwy gyllid a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru fel rhan o *Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: y rhaglen dysgu carlam* a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig.

7.4 Dywedodd uwch arweinwyr yn aml fod cyfnodau clo a chau ysgolion wedi cyfrannu at leddfu rhai o'r beichiau ar gyllidebau ysgolion, a thrwy hynny ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd a rhyddid i allu cyflogi staff ychwanegol, gyda chefnogaeth ffrydiau cyllid grant newydd yn gysylltiedig â COVID-19. Mynegodd rhai ysgolion bryderon ynghylch pa mor gynaliadwy y byddai'r swyddi newydd y tu hwnt i flwyddyn neu ddwy, pe bai mwy o bwysau ar gyllidebau ysgolion.

7.5 Darparodd nifer bach o ysgolion enghreifftiau o sut yr oeddent wedi buddsoddi yn natblygiad gweithwyr cymorth dysgu i gyflenwi mewn dosbarthiadau ac felly ryddhau athrawon i dreulio amser ar weithgarwch datblygu'r cwricwlwm.

## 8. Casgliadau a materion i'w hystyried

8.1 Cafodd y casgliadau a'r materion i'w hystyried ymhellach a nodir isod eu datblygu yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodir yn Adrannau 4-7.

**Cynnydd cyffredinol**

8.2 Cadarnhaodd y sampl o gyfweliadau fod ysgolion ar wahanol gamau o'u taith tuag at ddiwygio’r cwricwlwm. Fodd bynnag, roedd patrwm cyffredinol a oedd yn dangos bod ysgolion yn teimlo eu bod wedi gwneud cynnydd rhwng haf 2021 (pan gasglwyd data'r arolwg) a diwedd yr hydref. Esbonnir hyn yn rhannol drwy'r ymgysylltiad manylach ag agweddau allweddol ar y broses ddiwygio:

- Dywedodd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod wedi dechrau treialu dulliau addysgu a dysgu newydd;
- Roedd ysgolion wedi mapio eu cynlluniau ar gyfer ailddylunio’r cwricwlwm yn fanylach, gan nodi cerrig milltir yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol i fod yn barod i ddechrau’r broses gyflwyno ym mis Medi 2022; ac, yn bwysig,
- Adroddodd ysgolion gynnydd yn y gweithgaredd rhwydweithio ysgol-i-ysgol, dan arweiniad Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol.

Datgelodd y cyfweliadau felly fomentwm cynyddol yng ngweithgarwch ysgolion.

8.3 Fodd bynnag, adleisiwyd nifer o’r pryderon a fynegwyd yn nata’r arolwg yn y cyfweliadau hyn:

- Erys diffyg eglurder ynghylch dulliau asesu a chynnydd;
- Dywedodd rhai ymarferwyr eu bod yn teimlo’n llai gwybodus am y diwygiadau nag uwch arweinwyr;
- Nododd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr nad oeddent yn hyderus bod y camau yr oeddent yn eu cymryd i addasu arferion addysgu neu dreialu dulliau newydd yn gyson â gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru;
    - roedden nhw'n aml yn cwestiynu a oedden nhw *'ar y trywydd iawn'* neu ai'r dulliau a fabwysiadwyd ganddynt oedd *'y ffordd iawn i fynd o'i*

*chwmpas hi'*, gan nodi eu bod yn chwilio am sicrwydd neu gymorth pellach.

**Ymgysylltu a dealltwriaeth**

8.4 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn bod datblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r diwygiadau yn rhagofyniad pwysig ar gyfer dylunio a threialu eu cwricwlwm yn llwyddiannus. Dywedodd ysgolion eu bod wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau i helpu i ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr o'r Cwricwlwm i Gymru gan gynnwys:

- Cynnal cyfarfodydd mewnol ac allanol rheolaidd a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol a chydweithio sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o agweddau penodol ar y Cwricwlwm i Gymru;
- Datblygu eu canllawiau a'u deunyddiau cynllunio eu hunain yn seiliedig ar ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, a arweinir yn aml gan arweinwyr Maes dynodedig yn yr ysgol;
- Adolygu i ba raddau y mae darpariaeth eu hysgol yn cwmpasu agweddau ar ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.

8.5 Roedd ysgolion yn ystyried bod yr holl weithgaredd uchod yn werthfawr, ond adroddwyd bod pwysau amser yn cyfyngu ar y graddau yr oedd rhai yn gallu cymryd rhan ynddynt. Roedd hyn yn arbennig o wir ymhlith y rhai a gyfwelwyd o ysgolion uwchradd a bwysleisiodd effaith y pandemig a'r beichiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweinyddu graddau a bennir gan ganolfan ar yr amser y gallent ei neilltuo i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru.

***Mater i'w ystyried:*** Dywedwyd bod prinder amser wedi cyfyngu ar allu rhai ysgolion i fwrw ymlaen â'r paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Gallai Llywodraeth Cymru a phartneriaid ystyried beth arall y gellir ei wneud i roi amser a lle i ysgolion gynllunio a dylunio gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd.

8.6 Roedd yn ymddangos bod effeithiolrwydd y cyfathrebu rhwng uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn dylanwadu ar hyder ymarferwyr o ran eu dealltwriaeth o'r newidiadau i'r cwricwlwm. Dywedodd rhai ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd nad oeddent yn ymwybodol o'r holl weithgareddau a oedd yn digwydd yn eu hysgol, a'u bod yn

gweld bod llawer yn digwydd 'y tu ôl i'r llenni'. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau adroddiad yr arolwg a ddangosodd nad oedd ymarferwyr bob amser yn ymwybodol bod eu hysgol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm. Mae'n awgrymu bod angen annog a chefnogi uwch arweinwyr i ledaenu gwybodaeth am eu gweithgarwch sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru i'r holl staff.

***Mater i'w ystyried:*** Sut y gellir cefnogi uwch arweinwyr mewn ysgolion i sicrhau bod mwy o staff yn ymgysylltu â gweithgareddau cynllunio a dylunio'r cwricwlwm, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd?

8.7 Er bod y rhan fwyaf o uwch arweinwyr yn hyderus yng ngallu eu staff i ddylunio gwersi effeithiol, mynegodd rhai bryder nad oedd gan eu staff, a'r gweithlu addysg yn gyffredinol, y ddealltwriaeth, y profiad a'r sgiliau i ddylunio cwricwlwm newydd. O'i gymharu ag adroddiad yr arolwg, a ddangosodd fod gan uwch arweinwyr lefelau uchel o hyder yn sgiliau dylunio cwricwlwm eu hymarferwyr, mae'r cyfweliadau'n dangos darlun mwy amlochrog mewn perthynas â hyder ymarferwyr. Dywedodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd eu bod yn ansicr a oedd eu dealltwriaeth yn gyson â'r canllawiau cenedlaethol, a mynegwyd awydd i gael sicrwydd neu ddilysiad o'u gweithgaredd hyd yma. Teimlai llawer nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth am brofiadau ysgolion arloesi i roi sicrwydd iddynt bod eu dealltwriaeth o'r diwygiadau yn gywir a'u cynlluniau'n briodol.

***Mater i'w ystyried:*** Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid haen ganol archwilio'r camau pellach y gellir eu cymryd i gynyddu sgiliau a hyder y gweithlu i gyfrannu'n ystyrlon at ddylunio'r cwricwlwm.

***Mater i'w ystyried:*** Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid haen ganol ystyried a fyddai modd darparu cymorth pellach i helpu paratoadau ysgolion ar gyfer y cwricwlwm a rhoi sicrwydd ynghylch addasrwydd a chyfeiriad eu camau i wireddu'r cwricwlwm. Gallai hyn gynnwys deunyddiau ategol, gan roi enghreifftiau o ddulliau dylunio neu gynllunio effeithiol.

**Dylunio, cynllunio a threialu**

8.8 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod ysgolion wedi symud ymlaen â'u gweithgareddau dylunio a threialu'r cwricwlwm. Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd amrywiaeth o brosesau ymchwil, cydweithio ac adolygu a oedd wedi llywio eu gwaith cynllunio a

dylunio. Disgrifiodd ysgolion sut yr oeddent yn rhoi llais y dysgwr wrth galon eu dull dylunio a chynllunio ac yn ceisio cynllunio cynnwys a oedd yn darparu mwy o gyfleoedd addysg drwy brofiad i ddysgwyr. Roedd llawer o ysgolion yn ceisio nodi cysylltiadau rhwng themâu a chynnwys ar draws gwahanol Feysydd, er mwyn creu elfennau cyffredin a fyddai’n helpu dysgwyr i weld cysylltiadau o fewn cwricwlwm mwy integredig.

8.9 Dywedodd ysgolion eu bod wedi neilltuo staff i fod yn arweinwyr Maes, gan sefydlu strwythurau sefydliadol a allai gefnogi diwygio’r cwricwlwm. Disgrifiwyd y rolau hyn fel rhai a oedd yn ymwneud yn bennaf â hwyluso cydweithio ac arwain gweithgareddau cynllunio a dylunio gyda chefnogaeth weithredol gan gydweithwyr.

8.10 Nododd y rhai a gyfwelwyd fod y broses ddiwygio'n golygu ailddylunio’r cwricwlwm, gan wneud addasiadau a gwelliannau i’r cwricwlwm yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru - yn hytrach na dechrau o’r dechrau a gwneud newidiadau mawr.

8.11 Wrth fyfyrio ar fanteision a nodweddion cadarnhaol gweithgareddau cynllunio a dylunio'r cwricwlwm, cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd at bwysigrwydd:

- annog ymdeimlad o gydberchnogaeth o'r diwygiadau;
- gwerthfawrogi'r cyfleoedd drwy ddulliau mwy hyblyg o gynllunio ac amserlennu;
- mwy o ymgysylltiad gan ddysgwyr wrth feddwl am y wybodaeth, y sgiliau a’r profiad y maent yn eu hennill drwy’r cwricwlwm;
- y cyfleoedd sy’n gysylltiedig â datblygu cwricwlwm sydd â'i wreiddiau'n fwy lleol a pherthnasol.

8.12 Dywedodd y rhai a gyfwelwyd hefyd fod nifer o heriau a rhwystrau'n ymwneud â dylunio'r cwricwlwm. Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr yr angen am ragor o fynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi dylunio'r cwricwlwm, rhywbeth y teimlwyd y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol ei flaenoriaethu. Adroddwyd am heriau eraill ar lefel ysgolion unigol: mynegodd rhai rwystredigaeth ynghylch cyfathrebu gwael o fewn eu hysgol lle roedd trafodaethau am ddylunio a chynllunio yn cael eu cynnal ar lefel uwch arweinwyr ac nid oeddent yn cael eu

lledaenu i'r staff addysgu. Yn olaf, teimlai'r rhai a gyfwelwyd yr hoffent weld enghreifftiau neu esiamplau o broses ddylunio neu gynllunio lwyddiannus – gan gynnwys mewn ysgolion â nodweddion tebyg neu mewn cyd-destunau tebyg.

***Mater i'w ystyried:*** Sut y gellir gwella mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol? A fyddai modd addasu’r cynnig dysgu proffesiynol presennol i ganolbwyntio'n fwy ar gymorth ymarferol i helpu i gynllunio a dylunio’r cwricwlwm?

**Gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf**

8.13 Ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfweliadau, nid oedd llawer o ysgolion wedi symud ymlaen â’u gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm i’r pwynt lle roeddent wedi gwerthuso neu adolygu dulliau newydd. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth ymhlith yr ysgolion hyn i'r egwyddor o ddatblygu ac ailymweld â'r cwricwlwm drwy broses o adolygu parhaus a myfyrio ar y cyd. Roedd ysgolion mewn llawer o achosion yn dal i ddatblygu eu cynlluniau cwricwlwm gyda’r bwriad o dreialu a gwerthuso dulliau gweithredu yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2022.

8.14 Dywedodd uwch arweinwyr eu bod, fel rhan o’r diwygiadau, yn ceisio annog diwylliant o gydweithio a chyd-ddiben lle mae athrawon yn trafod, yn myfyrio ac yn gwerthuso, eu hymarfer addysgu o fewn eu timau a’u Meysydd. Nododd yr ymarferwyr hefyd eu bod wedi gweld symudiad tuag at drafodaethau mwy anffurfiol am gynllunio ac addysgeg, gyda’r trafodaethau hyn yn aml yn seiliedig ar ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.  Crybwyllwyd ystod o weithgareddau eraill y mae ysgolion wedi dechrau eu defnyddio neu'n bwriadu eu cyflwyno: mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant gan gymheiriaid; gweithio mewn triawdau i arsylwi a rhoi adborth ar yr hyn a gyflwynir yn yr ystafell ddosbarth; a dulliau gwerthuso sy'n canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar brofiadau dysgwyr o wersi neu destunau penodol.

8.15 Pwysleisiodd yr uwch arweinwyr yr angen am ddull graddol ac ailadroddol o ymdrin â phob agwedd ar y broses ddiwygio. Roedd nifer o’r rhai a gyfwelwyd yn cydnabod bod adolygu, gwerthuso ac ailddylunio'r cwricwlwm yn debygol o fod yn elfennau hollbwysig o’r broses ddiwygio dros y blynyddoedd i ddod. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod hyn yn gofyn am newid meddylfryd ar draws y system ehangach fel nad yw adolygu a gwerthuso yn cael eu llywio gan fesurau atebolrwydd neu reoli

perfformiad ond yn hytrach eu bod yn rhan o ddiwylliant o welliant parhaus a dysgu ar y cyd. Rhoddodd y rhai a gyfwelwyd enghreifftiau o sut y maent yn annog athrawon i arloesi, i roi cynnig ar ddulliau gweithredu newydd heb ofni methu, gan dderbyn na fydd pob dull arloesi yn gweithio. Dywedwyd bod dysgu o gamgymeriadau, a rhannu’r hyn a ddysgwyd, yn agweddau allweddol ar y broses ddiwygio.

8.16 Nododd nifer o ysgolion fod cyfyngiadau amser a’r aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig wedi effeithio ar eu paratoadau ar gyfer y cwricwlwm ac yn golygu nad oeddent eto wedi cyrraedd y cam lle roeddent wedi dechrau gwerthuso. Rhwystr arall i adolygu a gwerthuso darpariaeth oedd canfyddiad nad oedd yn glir pa ddeilliannau dysgwyr y dylai ysgolion fod yn gwerthuso yn eu herbyn.

**Y costau sy'n gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm**

8.17 Dywedodd uwch arweinwyr fod ysgolion wedi mynd i gostau yn gysylltiedig â’u paratoadau ar gyfer diwygio’r cwricwlwm, gan nodi bod y costau hyn mewn llawer o achosion wedi’u cefnogi drwy ffrydiau cyllido ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y costau hyn yn ymwneud yn bennaf â'r amser a dreuliwyd gan staff y tu allan i'r ystafell ddosbarth neu i ffwrdd o'r ysgol yn gweithio ar baratoadau; swyddi newydd a/neu CAD ychwanegol ar gyfer aelodau staff sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol (arweinwyr Maes yn aml); cost yn gysylltiedig â gweithgaredd dysgu proffesiynol; costau'n gysylltiedig â defnyddio arbenigwyr i ddarparu cymorth i ysgolion.

8.18 Ni ddywedodd y penaethiaid a gyfwelwyd eu bod wedi wynebu anawsterau wrth ddod o hyd i'r cyllid i dalu'r costau ychwanegol. Fodd bynnag, awgrymodd rhai y gallai fod yn anodd cynnal y gwariant ychwanegol dros nifer o flynyddoedd.

## Atodiad A: Canllaw trafodaeth ar gyfer y cyfweliadau

1. Gofynnodd yr arolwg a oeddech yn teimlo ym mis Gorffennaf eleni bod eich ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ei chwricwlwm i'w gyflwyno. Eich ateb oedd [*YMATEB*].
    - Fe wnaethom hefyd ofyn a oedd eich ysgol mewn sefyllfa dda i wneud newidiadau i'ch ymarfer proffesiynol yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd. Eich ateb oedd [*YMATEB*]
    - Yn drydydd, gofynnwyd i chi a oes angen cymorth neu adnoddau ychwanegol ar eich ysgol i fod yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Eich ateb oedd [*YMATEB*]
    - A fyddech chi'n dal i ateb y cwestiynau hyn yn yr un ffordd?

2. Yn ystod y cyfweliad byddwn yn eich holi am agweddau penodol ar ddiwygio'r cwricwlwm ond, yn gyffredinol, sut mae pethau'n dod yn eu blaenau o ran eich paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd?

**Ymgysylltu a dealltwriaeth**

[Cyflwyniad/gosod y cefndir ar gyfer y grŵp cyntaf o gwestiynau]: Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau (Y Daith i 2022) ym mis Hydref 2020 i gefnogi ysgolion gyda'u paratoadau ar gyfer 2022. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau o'r camau y gallai ysgolion fod yn eu cymryd i gefnogi dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd.

3. [I benaethiaid/uwch arweinwyr] Pa gamau, os o gwbl, ydych chi wedi gallu eu cymryd i ddatblygu <u>dealltwriaeth</u> ysgol gyfan o'r Cwricwlwm i Gymru?
    - Pa gamau y mae'r ysgol yn eu cymryd i roi'r pedwar diben wrth wraidd blaenoriaethau / strategaethau'r ysgol?
    - Beth am y camau i ddatblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r trefniadau asesu?
    - Pa mor effeithiol oedden nhw?

4. [I ymarferwyr] Pa weithgareddau yr ydych chi wedi bod yn rhan ohonyn nhw i ddatblygu eich <u>dealltwriaeth</u> o'r Cwricwlwm i Gymru?
    - **Beth am y gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth o'r trefniadau asesu newydd?**
    - Pa mor effeithiol oedden nhw?

5. Sut mae gweledigaeth eich ysgol ar gyfer y cwricwlwm newydd wedi cael ei datblygu?
    - [Os na chrybwyllir asesiad] Sut y mae asesu wedi bod yn rhan o'ch trafodaethau hyd yn hyn?

6. Sut ydych chi'n meddwl y bydd cwricwlwm newydd eich ysgol yn wahanol o safbwynt y dysgwr?

7. Pa gamau gweithredu sy'n gweithio'n dda o ran datblygu dealltwriaeth gliriach o'r Cwricwlwm i Gymru ymhlith ymarferwyr?
    - Beth sydd fwyaf defnyddiol i chi o ran datblygu eich dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru? [Ysgogiadau: gweithgaredd dysgu proffesiynol; canllawiau (os felly, pa agweddau penodol); rhwydweithiau rhanbarthol; trefniadau gweithio ysgol-i-ysgol;
    - Ydych chi'n cydweithio ag ysgolion eraill ar weithgareddau diwygio'r cwricwlwm? Os felly, sut ac a oes unrhyw beth a allai wneud hyn yn fwy effeithiol neu'n haws i chi?
    - Beth allai ysgolion eraill ei ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda yn eich ysgol chi wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru?

8. Beth yw'r rhwystrau o ran datblygu dealltwriaeth gliriach o'r Cwricwlwm i Gymru ymhlith ymarferwyr?
    - Pa gymorth neu gamau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen o ran ymgysylltu a dealltwriaeth?
    - Pa gymorth penodol fyddai'n ddefnyddiol i ddatblygu ymhellach ddealltwriaeth arweinwyr ac ymarferwyr o'r hyn sy'n newid mewn perthynas ag asesu?
    - A oes angen cymorth i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant a pharhad ar gyfer dysgwyr ar draws cyfnodau?

9. [I benaethiaid/uwch arweinwyr] Ydych chi wedi ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach fel rhan o drafodaethau am ddiwygio'r cwricwlwm?
    - Os felly, ym mha ffyrdd a pha mor effeithiol fu'r ymgysylltu hwn?

10. Ydych chi wedi cynnwys dysgwyr fel rhan o'r broses?
    - Os felly, sut y maent wedi bod yn rhan o drafodaethau am y cwricwlwm newydd?
    - Beth mae dysgwyr yn eich ysgol chi ei eisiau o'r cwricwlwm newydd?

**Dylunio, cynllunio a threialu**

Cyfeiriwch at ymatebion y sawl a gyfwelir i gwestiynau perthnasol (e.e. cwestiwn 19 yn yr arolwg, 'Mae ein hysgol wedi treialu dulliau ystafell ddosbarth sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd')

11. Pa gamau yr ydych chi wedi eu cymryd / yn eu cymryd ar hyn o bryd fel rhan o'r broses o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn eu hysgol;

- A oes unrhyw ddulliau addysgu a dysgu newydd yn cael eu datblygu neu eu treialu? Os felly, beth ydyn nhw?
- Unrhyw anghenion dysgu proffesiynol a nodwyd i gefnogi'r broses o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm?
- Fel rhan o'r broses hon, a ydych wedi nodi unrhyw anghenion sy'n benodol i gefnogi datblygiad trefniadau asesu newydd?
- Pa weithgarwch cydweithio sy'n cael ei wneud i gefnogi'r broses?
    - O fewn yr ysgol a thrwy gydweithio ag ysgolion eraill.
    - A ydych yn cydweithio ag ysgolion mewn cyfnodau eraill (gydag ysgolion cynradd/uwchradd)? Os felly, ydy hyn wedi bod yn fuddiol i chi?
- Pa ganllawiau yr ydych chi'n eu defnyddio i gefnogi hyn? [Ysgogiadau: Canllawiau cenedlaethol ar y Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru? Canllawiau a chymorth rhanbarthol?
    - Pa mor effeithiol yw'r canllawiau?

12. Beth sy'n gweithio'n dda wrth ddylunio, cynllunio a threialu'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn eich ysgol?
    - Beth allai ysgolion eraill ei ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda yn eich ysgol chi?

13. Beth yw'r rhwystrau o ran dylunio, cynllunio a threialu'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn eich ysgol chi?
    - Pa gymorth ychwanegol sydd ei angen o ran dylunio, cynllunio a threialu'r cwricwlwm newydd a threfniadau asesu?

**Gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf (10 munud)**

14. [I'r UDA] Ydych chi wedi cyrraedd y pwynt yn eich proses datblygu'r cwricwlwm lle'r ydych wedi gwerthuso dulliau newydd o gyflwyno'r cwricwlwm ac wedi defnyddio hyn i ddylanwadu ar y dyluniad parhaus?
    - Os felly, beth ddysgoch chi a beth, os o gwbl, wnaethoch chi ei addasu?

15. [I ymarferwyr] Ydych chi wedi bod yn rhan o werthuso dulliau newydd ac wedi defnyddio hyn i addasu neu newid eich dull? [YMATEB i 19.3]
    - Os felly, beth ddysgoch chi a beth, os o gwbl, wnaethoch chi ei addasu?

16. Beth sy'n gweithio'n dda wrth werthuso dyluniadau cychwynnol a threialu dulliau gweithredu pellach?
    - Beth allai ysgolion eraill ei ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda yn eich ysgol chi o ran gwerthuso dulliau newydd a dysgu ohonynt?

17. Beth yw'r rhwystrau i werthuso dyluniadau cychwynnol a threialu dulliau gweithredu pellach?
    - Pa gymorth neu gamau ychwanegol sydd eu hangen i werthuso dyluniadau cychwynnol a threialu dulliau gweithredu pellach?

**Costau'r broses ddiwygio (5 munud)**

18. [I'r UDA] Heb nodi ffigurau, pa gostau ychwanegol y mae ysgolion yn eu hwynebu fel rhan o'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu? [Ysgogiadau: Allwch chi ddarparu enghreifftiau o gamau gweithredu / trefniadau / paratoadau ble mae angen adnoddau ychwanegol? E.e. rhyddhau staff ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol, ôl-lenwi, adnoddau, seilwaith]

19. [I UDA] Sut y mae unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu ar hyn o bryd?
    - Cyllid allanol? O fewn cyllideb yr ysgol? A yw'r costau ychwanegol hyn yn effeithio ar yr ysgol mewn unrhyw ffordd?